




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ymgynghoriad ar amlosgi

yn dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi
babanod

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 16 Rhagfyr 2015

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gorffen ar 9 Mawrth 2016





Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Ymgynghoriad ar amlosgi

yn dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi babanod

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Am yr ymgynghoriad hwn

- At:** Pob rhanddeiliad â diddordeb, yn enwedig rhieni mewn profedigaeth a effeithiwyd gan amlosgiad baban; y mudiadau sy'n cynorthwyo pobl mewn profedigaeth; staff awdurdodau amlosgi a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli; dyfarnwyr meddygol awdurdodau amlosgi; trefnwyr angladdau a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli; gweithwyr meddygol proffesiynol; unrhyw un arall sydd wedi'i effeithio gan neu sydd â diddordeb yn y materion yn y ddogfen ymgynghori hon
- Hyd:** 16 Rhagfyr 2015 tan 9 Mawrth 2016
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** Coroners, Burials, Cremations and Inquiries Policy Team
Area 3.37
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555
Ffacs: 020 3334 2233
E-bost: coroners@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 9 Mawrth 2016 i:
Coroners, Burials, Cremations and Inquiries Policy Team
Area 3.37
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555
Ffacs: 020 3334 2233
E-bost: coroners@justice.gsi.gov.uk
- Papur ymateb:** Mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn i'w gyhoeddi yn 2016 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	7
Y cynigion	9
1. Ystyriaethau cyffredinol	9
2. Diffiniad o llwch	11
3. Casglu a gwasgaru llwch	13
4. Trefniadau cadw confnodion yr awdurdod amlosgi	17
5. Penodi arolygydd	19
6. Gweithgor amlosgi cenedlaethol	22
7. Hyfforddi staff amlogfeydd a threfnwyr angladdau	24
8. Cod ymarfer a datganiad polisi awdurdodau amlosgi	27
9. Arferion awdurdodau amlosgi ar adennill llwch	30
10. Gwybodaeth ac arweiniad i rieni mewn profedigaeth	33
11. Amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed	36
12. Cofebau	45
13. Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus	46
14. Y prawf teuluol	47
Holidaur	48
Atodiad A Amlosgi babanod yn Yr Alban - Cod ymarfer 2015	53
Atodiad B Yr awdurdod meinweddol dynol Mawrth 2015 Canllawiau ar waredu gweddillion beichiogrwydd yn dilyn colli neu derfynu beichiogrwydd	55
Atodiad C Rhestr lawn o argymhellion adroddiad Emstrey	61
Atodiad D Rhestr lawn o argymhellion comisiwn Amlosgi Babanod yr Arglwydd Bonomy 63	
Eich manylion chi	72
Manylion cyswllt/sut i ymateb	73
Egwyddorion ymgynghori	75

Rhagair

Rwyf yn falch o'r cyfle i gael lansio'r ymgynghoriad pwysig hwn sy'n gofyn am farn ar gynigion i wella nifer o newidiadau i'r Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008, ac i wella nifer o agweddau eraill ar arferion amlosgi. Mae'r maes polisi hwn wedi bod yn flaenoriaeth i mi ers i mi ymuno â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol yn gynharach eleni.

Ar 1 Mehefin 2015 cyhoeddodd David Jenkins ei adroddiad ar y ffordd yr oedd amlosgiadau babanod wedi'u cynnal yn Amlogfa Emstrey yn Swydd Amwythig rhwng 1996 a 2012. Canfu'r adroddiad hwn fod Amlogfa Emstrey yn ystod y cyfnod hwn wedi methu ag adennill llwch i'w ddychwelyd i rieni ar ôl amlosgi babanod.

Cafwyd problemau tebyg yn yr Alban. Ym Mehefin 2014 dywedodd Comisiwn Amlosgi Babanod (ICC) yr Arglwydd Bonomy fod rhieni mewn rhai achosion yn yr Alban wedi cael gwybod ar gam nad oedd, neu na fyddai dim llwch yn dilyn amlosgiad eu babanod. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi gwneud llawer o waith mewn ymateb i adroddiad yr ICC.

Roedd llawer o argymhellion adroddiad Emstrey ar gyfer Llywodraeth San Steffan, ond roedd yr adroddiad yn argymhell hefyd y dylai Llywodraeth San Steffan ystyried argymhellion yr ICC.

Rwyf yn bendant o'r farn na ddylai rhieni yn y dyfodol sydd wedi cael profedigaeth orfod profi'r tralod ychwanegol y bu'n rhaid i rieni a effeithiwyd gan y materion yn Emstrey eu dioddef. Yn anffodus, fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod rhieni eraill wedi cael profiadau tebyg mewn rhannau eraill o Loegr.

Rwyf yn benderfynol y bydd y Llywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod llwch yn cael ei ddychwelyd i'r rhieni'n dilyn amlosgi babanod.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn byddwn yn ystyried yn ofalus yr ymatebion a gafwyd a byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud y flwyddyn nesaf.

Caroline Dinenage

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Fenywod, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Teuluol

Crynodeb gweithredol

Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am farn ymatebwyr ar wella deddfwriaeth ac arferion amlosgi babanod yng Nghymru a Lloegr.

Mae 247 o amlogfeydd yng Nghymru a Lloegr. O'r rhain, mae 78 yn fusnesau preifat.

Mae amlosgi babanod, babanod marw-anedig, plant ac oedolion yn cael ei reoleiddio gan Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008¹ ('Rheoliadau 2008'). Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu deddfwriaeth amlosgi eu hunain.

Yng nghyd-destun y ddogfen hon mae 'amlosgi babanod' yn cyfeirio at amlosgi babanod genediggaeth fyw hyd at flwydd oed (ar ôl unrhyw gyfnod beichiogi) a babanod newydd-anedig (o gyfnod beichiogi o 24 wythnos neu fwy).

Daw'r ymgynghoriad hwn ar ôl i'r Llywodraeth ystyried adroddiadau:

- David Jenkins – into historic practices at Emstrey Crematorium in Shropshire² ('adroddiad Emstrey')
- Lord Bonomy's Infant Cremation Commission – into practices in Scotland³ ('adroddiad yr ICC')

Rydym yn credu y gellid gweithredu rhai o argymhellion yr ICC ac Emstrey nid yn unig yn achos amlosgi babanod ond hefyd yn fwy cyffredinol yn achos amlosgi plant ac oedolion. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu hyn, ac mae'n datgan yn eglur ein bod yn cynnig gweithredu'r argymhellion yn fwy cyffredinol.

Ceir rhagor o fanylion am adroddiadau Emstrey a'r ICC yn adran 'Cefndir' y crynodeb hwn, isod.

Cynigion

O safbwynt newidiadau i'r deddfwriaeth mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am sylwadau'n benodol ar:

- ddiffiniad statudol newydd arfaethedig o llwch (pennod 2);
- a ddylai gweithdrefnau fynnu bod y sawl sy'n gwneud cais i amlosgi yn gwneud penderfyniadau cyn yr amlosgi ar gasglu neu wasgaru llwch, a beth ddylid ei wneud os na chesglir y llwch (pennod 3);

¹<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2008/2841/contents/made>

²<https://www.shropshire.gov.uk/independent-inquiry-into-infant-cremations/inquiry-report/>

³<http://www.gov.scot/Topics/Health/Policy/BurialsCremation/CremationCommission>

- a ddylai awdurdodau amlosgi orfod cadw cofnodion am fwy o amser (pennod 4).

Mae pennod ar wahân (pennod 11) sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn y cyfnod beichiogrwydd nad oedd yn dangos dim arwydd o fywyd annibynnol y tu allan i'r groth. Mae'r ICC yn cyfeirio at y rhain fel 'babanod anfyw'. Mae amlosgiadau o'r fath yn digwydd ond nid ydynt ar hyn o bryd yn cael eu rheoleiddio o dan reoliadau 2008. Mae'r bennod hon yn gofyn a ddylai'r amlosgiadau hyn ddod o dan y rheoliadau.

O ran gwella arferion amlosgi, mae'r ddogfen yn gofyn a ddylid cael arolygydd amlosgfeydd (pennod 5). Mae hefyd yn amlinellu ein cynnig i sefydlu gweithgor cenedlaethol ar gyfer amlosgi (pennod 6) ac mae'n awgrymu y dylai'r gweithgor ystyried hyfforddi'r diwydiannau amlosgi ac angladdau (pennod 7), a fframwaith technegol ar gyfer adennill llwch babanod (pennod 9).

Mae'r ddogfen yn cynnig un neu ragor o godau ymarfer ar amlosgi a hyfforddiant ar amlosgi ac mae'n gofyn am farn ar hyn (pennod 8). Mae hefyd yn gofyn sut y gellid gwella'r wybodaeth y mae rhieni'n ei chael am amlosgi (pennod 10).

Mae'r ddogfen hefyd yn datgan ein bod yn parhau'n gefnogol i gofebau a chredwn y byddai fwyaf priodol i gofebau gael eu darparu'n lleol (pennod 12).

Trwy'r ddogfen hon rydym yn cyfeirio at 'rieni'. Dylid dehongli hyn fel 'rhiant' neu 'rieni', neu ofalwr neu ofalwyr eraill, fel bydd yn briodol i'r ymatebwr.

Cefndir

'Report into infant cremations at the Emstrey Crematorium Shrewsbury' gan David Jenkins

Ar 1 Mehefin 2015 cyhoeddodd David Jenkins ei adroddiad ar y ffordd yr oedd amlosgiadau babanod wedi cael eu cynnal yn Amlogfa Emstrey yn Swydd Amwythig rhwng 1996 a 2012.

Dangosodd yr adroddiad fod methiant ar ran yr amlogfa yn ystod y cyfnod hwn i gael llwch i'w ddychwelyd i rieni ar ôl amlosgi babanod neu fabanod marw-anedig. Yn benodol amlygodd yr adroddiad y prosesau a'r technegau amlosgi a ddefnyddid yn Amlogfa Emstrey a oedd yn golygu nad oedd llwch yn weddill. Nododd fod modd adennill llwch babanod fel arfer drwy ddefnyddio offer a thechnegau addas.

Roedd yr adroddiad, a gomisiynwyd gan Gyngor Swydd Amwythig, yn dilyn ymchwiliad gan y BBC yn 2014 (a gyhoeddwyd ei wefan ar yr un pryd â chyhoeddi adroddiad y Comisiwn Amlosgi Babanod yn yr Alban, ac a drafodir isod) yn datgelu nad oedd Amlogfa Emstrey wedi dychwelyd llwch y babanod i gyd i'w rhieni, a bod arferion tebyg wedi'u nodi mewn amlosgfeydd eraill yn Lloegr (Gweler adran D isod).

Ers cyhoeddi adroddiad Emstrey mae rhieni eraill wedi datgan eu bod wedi cael profiadau tebyg mewn rhannau eraill o Loegr.

Mae 12 argymhelliad adroddiad Emstrey yn **Atodiad C**.

Adroddiad Comisiwn Amlosgi Babanod (ICC) yr Arglwydd Bonomy

Ffurfiwyd yr ICC yn dilyn pryderon yn yr Alban (lle mae 28 o amlosgfeydd) bod rhieni babanod a oedd wedi cael eu hamlosgi wedi cael gwybod ar gam mewn rhai achosion nad oedd neu na fyddai llwch i'w ddychwelyd.

Datgelodd yr adroddiad fod llawer o staff amlosgfeydd -yn ogystal â threfnwyr angladdau a staff ysbytai - o dan y gamargraff na fyddai llwch ar gael i'w ddychwelyd ar ôl amlosgi babanod.

Roedd adroddiad Mehefin 2014 yr ICC yn dilyn adroddiad gan y Fonesig Elish Angiolini, a gyhoeddwyd fis Ebrill 2014, ar ei hymchwiliad i arferion hanesyddol yn Amlogfa Mortonhall, Caeredin (a oedd yn cynnwys 22 o argymhellion i Gyngor Dinas Caeredin).

Nodau'r ICC oedd:

- Adolygu'r arferion, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol ar amlosgi babanod yn yr Alban, ac i ganfod gwendidau ac anghysonderau.
- Argymhell safonau cenedlaethol ar gyfer amlosgi babanod yn yr Alban.
- Sicrhau bod gan y sawl sy'n gysylltiedig â'r achos yn dilyn marwolaeth baban ddealltwriaeth glir a chyson o'r prosesau i'w helpu i gynorthwyo teuluoedd i:
 - wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth
 - rhoi eu babanod i orffwys yn ôl eu dymuniad
 - bod yn hyderus y bydd eu dymuniadau'n cael eu gweithredu.

Mae 64 argymhelliad yr ICC yn **Atodiad D**.

Cyflwyniad

Mae dechrau pob pennod yn yr ymgynghoriad hwn yn datgan a yw'r bennod yn cynnwys cynigion i ddiwygio Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008, a ydym yn gofyn am farn yr ymatebwyr arnynt; ynteu a ydym yn gwahodd barn yr ymatebwyr ar y ffordd ymlaen.

Mae croeso arbennig i ymatebion gan rieni mewn profedigaeth a chan aelodau eraill y teulu yn ogystal â rhai sy'n gweithio yn y diwydiannau amlosgi ac angladdau a'r 247 awdurdod amlosgi yng Nghymru a Lloegr, ond byddwn wrth gwrs yn ystyried sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater.

Mae'r papur ymgynghori hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar y dudalen ymgynghoriadau ar y wefan.

Mae'r Llywodraeth wedi cynnal asesiad cost sy'n dangos nad yw'r cynigion yn debygol o arwain at gostau newydd sylweddol i fusnesau preifat (amcangyfrifir y byddai'r costau'n llai na £1 miliwn) ond nid ydynt ychwaith yn debygol o arwain at arbedion. Byddwn yn croesawu tystiolaeth neu ddata ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion hyn, yng ngoleuni'r asesiad cost a fydd yn cael ei ddiwygio a'i gyhoeddi gydag ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn.

Mae copïau o'r papur ymgynghori'n cael eu hanfon at sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion amlosgi, gan gynnwys:

Action 4 Ashes

Cymdeithas yr Amlosgfeydd a Mynwentydd Preifat

Cymdeithas Feddygol Prydain

Child Bereavement UK

Childhood Bereavement Network

Mynwent Dinas Llundain

Co-operative Funeralcare

Crwneriaid

Awdurdodau amlosgfeydd

Cymdeithas Amlosgi Prydain Fawr

Cruse Bereavement Care

Dignity Funerals

Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi

Cyngor Meddygol Prydain

Sefydliad Rheolwyr Mynwentydd ac Amlosgfeydd

Gwasanaethau Profedigaeth Awdurdodau Lleol

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Cynghorau Llundain

London Cremations Ltd

Miscarriage Association

Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol

National Society of Allied and Independent Funeral Directors

Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau

Y Colegau Brenhinol

Sands, yr elusen marw-enedigaethau a chyn geni

Westerleigh Funerals

Byrddau Iechyd Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ni fwriadwyd i'r rhestr hon fod yn gyflawn na chyfyngedig a chroesewir ymateb gan unrhyw un â diddordeb neu sydd â barn ar y pwnc sy'n destun y papur hwn, gan gynnwys cymunedau ffydd neu gred penodol.

Y cynigion

1. Ystyriaethau cyffredinol

Mae 14 o benodau yn yr ymgynghoriad hwn, ac mae pob un yn ymdrin â thema wahanol a awgrymwyd gan argymhellion Emstrey a'r ICC.

Ym mhob pennod, rydym yn cyflwyno argymhelliad neu argymhellion Emstrey, a dilynir hynny gan argymhelliad neu argymhellion cyfatebol yr ICC. Rydym wedyn yn crynhoi safbwynt presennol Llywodraeth yr Alban mewn ymateb i argymhellion yr ICC. Pan yn berthnasol rydym yn cyfeirio at Fil Claddedigaethau ac Amlosgi (yr Alban)⁴, a gyflwynwyd yn yr Alban ar 8 Hydref 2015.

Rydym wedi ystyried y gwahanol ddeddfwriaeth a'r sefydliadau sy'n weithredol yng Nghymru a Lloegr ar yr un llaw, ac yn yr Alban ar y llall. Ym mhob pennod rydym yn cynnig ffordd ymlaen ar gyfer Cymru a Lloegr a / neu'n gwahodd barn ymatebwyr ar faterion lle nad ydym eto wedi penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Mae saith o'r 12 argymhelliad yn adroddiad Emstrey David Jenkins ar gyfer Llywodraeth San Steffan.

Dywed argymhelliad 7 Emstrey:

Rwyf yn argymhell bod y trefniadau a wneir o fewn y Llywodraeth ar gyfer argymhellion Comisiwn Bonomy yn cael eu hystyried yn fwy cyffredinol er mwyn eu cymhwyso mewn cyfraith ac arferion amlosgi babanod.

Mae'r ddogfen hon felly'n cynnwys ein cynigion ni ac, mewn rhai achosion, cwestiynau mwy agored – ar ôl i ni ystyried holl argymhellion perthnasol Emstrey a'r 64 argymhelliad a wnaethpwyd gan Gomisiwn Amlosgi Babanod (ICC) yr Arglwydd Bonomy

Mae polisïau a'r ddeddfwriaeth amlosgi yng Nghymru a Lloegr yn wahanol i'r hyn a geir yn yr Alban, felly pan fo hynny'n briodol rydym wedi ymdrechu i gyfleu ysbryd argymhellion yr ICC yng nghyd-destun Cymru a Lloegr.

Gwnaeth yr ICC yr argymhellion cyffredinol canlynol hefyd. Rydym yn cytuno â'r argymhellion hyn ac rydym wedi eu cadw mewn cof wrth lunio'r ddogfen hon:

Argymhellion yr ICC

1 Wrth ddeddfu, llunio polisi, drafftio gwybodaeth a dogfennau canllaw, ac wrth wneud trefniadau ar gyfer ac wrth gynnal amlosgiadau babanod, dylai'r baban a buddiannau'r teulu fod yn ganolbwynt y sylw. Dylai rhieni a theuluoedd gael amser a gofod i wneud y penderfyniad sydd orau iddynt hwy. Dylai trefniadau fod ar waith ym mhob ysbty ar gyfer cysylltiadau parhaus â rhieni, yn enwedig mamau, pan fydd angen y cysylltiad hwnnw arnynt.

⁴<http://www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/Bills/92664.aspx>

17 *Dylai pob ffurflen gais a ragnodir gael eu dylunio gan Lywodraeth yr Alban gyda phwyslais ar symlrwydd ac eglurder, a dylai fod yn ofynnol ar bob awdurdod amlosgi, Bwrdd Iechyd a darparwr gofal iechyd eraill i ddefnyddio'r ffurflenni sydd wedi'u rhagnodi a'u dylunio felly.*

64 *Dylai Gweinidogion yr Alban barhau i adolygu'r diwydiannau amlosgi ac angladdau a dylent ystyried, yng ngoleuni adroddiadau'r Pwyllgor Cenedlaethol a'r arolygydd annibynnol, a oes angen rheoleiddio pellach ar y naill neu'r llall.*

O ran argymhelliad 64 yr ICC, byddwn yn parhau i adolygu rheoliadau Cymru a Lloegr. Rydym yn rhagweld ar ôl y gwaith cyfredol hwn y bydd y cyfle nesaf i adolygu'r rheoliadau'n cyd-fynd â diwygiadau arfaethedig yr Adran Iechyd i dystysgrifau marwolaeth yn y man.

Er bod yr argymhelliad hwn yn canolbwyntio ar argymhellion adroddiadau Emstrey a'r ICC, rydym yn awyddus hefyd i'w ddefnyddio i ystyried newidiadau deddfwriaethol eraill i'r rheoliadau amlosgi y mae ymatebwyr yn teimlo sy'n bwysig.

C1- A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol ynghylch y broses amlosgi, neu ynghylch rheoliadau 2008⁵? Os felly, rhowch fanylion.

O ran marw-enedigaethau mae'r ICC wedi gwneud yr argymhellion canlynol.

Argymhellion yr ICC

25 *Dylid cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol tebyg i'r rhai yn Rheoliad 20 o Reoliadau 2008 (Cymru a Lloegr) sy'n gwneud yn ofynnol i gyhoeddi tystysgrifau priodol ar gyfer marw-enedigaethau.*

27 *Dylid diwygio darpariaethau Rheoliadau 13 a 15A o Reoliadau 1935 i'w gwneud yn weithredol yn achos plant marw-anedig.*

Roedd yr argymhellion hyn yn cynnig y dylai'r Alban fabwysiadu'r gweithdrefnau presennol yng Nghymru a Lloegr sy'n ymdrin â thystysgrifau ar gyfer marw-enedigaethau, a chais ar gyfer ac i awdurdodi amlosgiad. Ymateb Llywodraeth yr Alban oedd y byddai deddfwriaeth yn cael ei diwygio'n ôl argymhelliad yr ICC.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys dim cynigion sy'n ymwneud yn benodol â babanod marw-anedig, er bod rhai o'r cwestiynau'n berthnasol i amlosgi yn dilyn marw-enedigaethau.

⁵<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2008/2841/contents/made>

2. Diffiniad o lwch

Mae'r bennod hon yn ystyried a ddylid cael diffiniad statudol o lwch.

Rydym yn bwriadu cael diffiniad statudol o lwch a byddem yn gwerthfawrogi sylwadau ar hyn.

Argymhelliad Emstrey

4 Rwyf yn argymhell bod y Rheoliadau Amlosgi'n cael eu diwygio yn Lloegr, fel yn yr Alban, i gynnwys diffiniad Comisiwn Bonomy o lwch.

Argymhellion yr ICC

3 Dylai'r "llwch" y mae rhwymedigaeth ar yr awdurdod amlosgi i'w roi i ofal yr unigolyn sydd wedi gwneud cais am yr amlosgiad os yw'n dymuno hynny gael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth fel "yr unig beth sy'n weddill yn yr amlogwr ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu unrhyw fetel". Ni ddylai hynny atal yr ymgeisydd rhag rhoi caniatâd ymlaen llaw i dynnu metelau, fel hoelion arch ac uniadau artiffisial, a'u gwaredu ar wahân, gan gynnwys fel rhan o gynllun ailgylchu metel.

4 Dylai awdurdodau amlosgi adolygu eu harferion gweithio ar unwaith i sicrhau eu bod, wrth ddelio â'r "llwch" yn dilyn amlosgiad, yn gweithredu ar y sail bod y "llwch" yn cael ei ddiffinio fel yn yr argymhelliad blaenorol.

5 Dylai Llywodraeth yr Alban hysbysu eu cymheiriaid yng Nghymru a'r Lloegr a Gogledd Iwerddon o'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn yr Alban er mwyn eu galluogi i ystyried egluro'r diffiniad o "llwch" yn yr un ffordd.

Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban)

Mae Rhan 2 y Bil yn diffinio amlosgi fel troi gweddillion dynol yn llwch drwy losgi'r gweddillion a defnyddio malu neu brosesau eraill yn achos y gweddillion dynol llosgedig. Dywed nad yw "llwch" yn cynnwys metel, a bod "gweddillion dynol" yn cynnwys, pan fo gweddillion wedi'u gwisgo, mewn arch neu gydag unrhyw beth arall, y dillad, yr arch neu beth arall.

Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod argymhelliad 4 ar gyfer awdurdodau amlosgi a'r ICCM a'r FBCA, ond ei bod yn cefnogi'r argymhelliad. Byddai Gweinidogion yr Alban yn ysgrifennu at eu cymheiriaid yn nhair Llywodraeth y DU i egluro'r pwynt hwn, a gwaith y Comisiwn yn fwy cyffredinol.

Sylwebaeth

Nid oes diffiniad pendant o 'lwch' yn y deddfwriaeth sy'n weithredol ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr. Gall hyn olygu amrywiadau rhwng un amlogfa a'r llall, a gall gwahanol weddillion gael eu cyfrif fel llwch ar ôl amlosgiad, ac yn y gorffennol mae hyn wedi arwain at gamddealltwriaeth a dryswch. Roedd adroddiadau'r ICC ac Emstrey yn argymhell y dylai 'llwch' gael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth fel 'popeth sy'n weddill yn yr amlogwr ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu allan unrhyw fetel'. Dylai diffiniad o'r fath helpu i

wneud yn siŵr bod unrhyw weddillion sy'n weddill ar ôl amlosgiad yn cael eu trin fel llwch, sy'n golygu y gellir delio â hwy'n unol â dymuniadau'r rhieni.

Rydym yn deall na ellir adennill llwch ym mhob achos, yn enwedig ar ôl amlosgi babanod a gollwyd yn gynnar yn y tymor beichiogrwydd.

C2 - A ydych chi'n cytuno y dylai 'llwch' gael ei ddiffinio fel 'yr unig beth sy'n weddill yn yr amlogwr ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu allan unrhyw fetel'? Os nad ydych, eglurwch pam.

C3 - A ydych chi'n credu y byddai'r diffiniad hwn o lwch yn arwain at unrhyw newid yn arferion gweithio amlogfeydd? Pam / pam ddim?

C4 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi] A yw eich offer amlosgi chi'n gallu adennill cymaint o lwch â phosibl (er enghraifft, defnyddio plât i gadw'r llwch pan fo hynny'n ymarferol, ac yn cadw amodau gweithredol a fydd yn lleihau faint o'r llwch a gollir yn ystod y broses amlosgi)? Os nad ydych, pa newidiadau fyddai eu hangen eu gwneud i gynyddu faint o lwch a ellir ei adennill? Os byddai unrhyw oblygiadau cost rhowch fanylion am y costau, a faint y byddech yn ei ragweld fyddai maint y costau hynny.

3. Casglu a gwasgaru llwch

Mae'r bennod hon yn ystyried a ddylai fod yn ofynnol bod yr ymgeisydd, cyn y gall yr amlosgiad fynd yn ei flaen, ddatgan beth hoffent ei weld yn digwydd i unrhyw lwch sy'n cael ei adennill. Mae'n edrych ar yr ystyriaethau canlynol:

- a) Gofyniad ar y sawl sy'n gwneud y cais i amlosgi i ddweud beth hoffent ei weld yn digwydd i'r llwch
- b) Peidio â chasglu'r llwch
- c) Lle nad oes dim llwch

Nid oes gennym farn bendant ar hyn o bryd ar y materion hyn ac rydym yn awyddus i glywed barn yr ymatebwyr.

Argymhelliad Emstrey

Dim

Argymhellion y Comisiwn Amlosgi Babanod

18 *Dylai'r ffurflenni a ragnodwyd ar gyfer (a) [baban marw-anedig] ac (c) [amlosgiad unigol baban anhyfyw] gynnwys cwestiwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddweud sut y dylid delio â'r llwch ar ôl yr amlosgiad. Dylai'r opsiynau sydd ar gael gynnwys ei gadw am gyfnod diffiniedig cyn gwneud penderfyniad terfynol a hefyd ymestyn y cyfnod cadw'n ddiweddarach.*

19 *Dylid cynnwys darpariaeth mewn ffurflenni ar gyfer (a) [baban marw-anedig] ac (c) [amlosgiad unigol baban anhyfyw], neu ar ffurflen ar wahân, lle gall yr ymgeisydd awdurdodi cynrychiolydd, fel trefnydd angladdau, i gasglu'r llwch. Os mai'r trefnydd angladdau yw'r unigolyn awdurdodedig, dylai'r ffurflen hefyd roi cydsyniad i'r trefnydd angladdau dychwelyd y llwch i'r amlosgfa pe na fyddai'r ymgeisydd yn ei gasglu oddi wrth y trefnydd angladdau neu roi cyfarwyddiadau i'r trefnydd angladdau i'w waredu o fewn cyfnod diffiniedig.*

20 *Dylid cael darpariaeth ddeddfwriaethol benodol sy'n datgan na ddylid awdurdodi amlosgiad i fynd yn ei flaen os nad yw'r cais yn cynnwys cyfarwyddyd clir ynglŷn â sut yr ymdrinnir â'r llwch.*

21 *Os yw llwch yn cael ei adael yng ngofal yr amlosgfa am fod disgwyl iddynt gael ei gasglu, neu wrth aros am gyfarwyddyd pellach o fewn y cyfnod diffiniedig, ni all yr awdurdod amlosgi ei wasgaru na'i gladdu oni bai bod rhybudd o 14 diwrnod i wneud hynny wedi ei roi i'r ymgeisydd.*

26 *Dylai dyletswydd awdurdodau amlosgi o ran delio â llwch a amlinellir yn Rheoliad 17 o Reoliadau 1935 gael ei hystyngi i gynnwys babanod marw-anedig ac anhyfyw.*

41 *Yn achos babanod marw a marw-anedig, ar ôl cwblhau'r cofnod drwy gofnodi lleoliad y llwch neu fwriad i'w gasglu a'r dyddiad ar gyfer hynny, dylai fod yn ofynnol bod Cofrestrwydd yr awdurdod amlosgi'n anfon hysbysiad at yr ymgeisydd yn cadarnhau beth*

ddigwyddodd ac, os cafodd y llwch ei wasgaru neu ei gladdu, ym mhle ddigwyddodd hynny, ynghyd â detholiad o'r cofnod llawn yn y gofrestr. Yn achos amlosgiad unigol baban anhyfyw dylai'r Cofrestrydd gyhoeddi hysbysiad o'r fath a detholiad ar gais a dylai'r ffurflen gais ganiatáu i wneud cais o'r fath.

Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban)

Dywed Rhan 2 y Bil y gall Gweinidogion reoleiddio gwaredu llwch gan awdurdodau amlosgi a gallant wneud rheoliadau ynghyn â cheisiadau amlosgi a chofrestrau amlosgi.

Sylwebaeth

a) Gofyniad ar y sawl sy'n gwneud y cais i amlosgi i ddweud beth yr hoffent ei weld yn digwydd i'r llwch

Argymhellodd yr ICC y dylai'r ymgeisydd, cyn y gellir amlosgi baban, ddatgan beth yr hoffai ei weld yn digwydd i'r llwch. Rydym yn credu y byddai'n fuddiol o bosibl i weithredu hyn ym mhob amlosgiad a reoleiddir, ac nid rhai babanod yn unig.

Noder fod gweithredu gofyniad o'r fath yn achos ffetysau llai na 24 wythnos yn benodol yn cael ei ystyried fel rhan o bennod 11. **Nid yw'r cwestiynau yn yr adran hon felly'n berthnasol i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos.**

Y ffordd fwyaf ymarferol o gyflawni gofyniad statudol ar gyfer y sawl sy'n gwneud cais am amlosgiad i ddatgan beth ddylai ddigwydd i'r llwch fyddai drwy ychwanegu adran ar hyn yn y ffurflen gais i amlosgi. Mae'r ffurflen hon yn statudol eisoes o gan reoliadau 2008, ar gyfer pob amlosgiad a reoleiddir⁶.

O ran argymhelliad 20, awgrymodd Llywodraeth yr Alban y gallai'r ffurflen gais i amlosgi gynnwys y pedwar opsiwn posibl canlynol ar gyfer llwch, ac na ddylai amlosgiad gael mynd ymlaen os nad yw'r wybodaeth hon wedi'i rhoi:

(a) wedi'i wasgaru neu ei gladdu yn / gan yr amlogfa gyda'r teulu'n bresennol, gan nodi'r dyddiad a'r amser;

(b) wedi'i wasgaru neu ei gladdu yn / gan yr amlogfa heb i'r teulu fod yn bresennol, gan nodi'r dyddiad a bennwyd, hyd at 7 diwrnod ar ôl yr amlosgiad;

(c) yr ymgeisydd neu'r cynrychiolydd a benodir gan yr ymgeisydd yn casglu'r llwch;

(d) cadw'r llwch yn yr amlogfa am hyd at 8 wythnos, yn aros iddo gael ei gasglu neu am gyfarwyddyd pellach gan yr ymgeisydd neu gynrychiolydd yr ymgeisydd.

Hefyd, os dewisir naill ai opsiynau (c) neu (d), rhaid i'r ymgeisydd lofnodi datganiad ychwanegol:

(e) Rwyf yn deall os na fydd y llwch wedi'i gasglu neu os nad oes cyfarwyddyd wedi'i roi ar ôl 8 wythnos ar gyfer ei waredu neu ei gadw am gyfnod hwy, bydd y llwch yn cael ei wasgaru neu ei gladdu gan yr amlogfa.

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2008/2841/schedule/1/made>

Er bod gan y dull hwn ei rinweddau, efallai na fydd angen rheoleiddio oherwydd yn ymarferol mae gan lawer o gwmnïau amlosgi a / neu drefnwyr angladdau eu ffurflenni a'u prosesau cadarn eu hunain i wneud yn siŵr yr ymdrinnir â llwch yn unol â dymuniadau'r ymgeiswyr. Hefyd dywed rheoliad 2008 33(2)(m) bod yn rhaid i gofrestr awdurdodau amlosgi gofnodi sut y gwaredir â llwch. Felly mae'r gofrestr eisoes yn gweithredu fel cofnod o drafodaethau ynglŷn â sut y mae ymgeisydd yn dymuno i awdurdod amlosgi a / neu drefnydd angladdau ddelio â llwch.

C5 - A ydych chi'n credu na ddylai amlosgiad fynd yn ei flaen oni bai bod yr ymgeisydd wedi datgan beth ddylai ddigwydd i'r llwch? A fyddech cystal ag esbonio eich ateb, gan gynnwys unrhyw effeithiau negyddol a/neu effaith o ran cost rydych yn credu y gallai fod.

C6 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi a threfnwyr angladdau] Ym mha ganran o amlosgiadau unigol nad yw'r llwch yn cael ei gasglu? Beth yw'r rheswm am hyn a beth fyddwch chi'n wneud os na chesglir y llwch? A oes gan eich awdurdod amlosgi / cwmni weithdrefn ffurfiol?

C7 - A ydych chi'n credu y dylai'r ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi yn rheoliadau 2008 gael ei diwygio i gynnwys opsiynau ar gyfer unrhyw lwch sy'n cael ei adennill, ynteu a ydych chi'n credu bod y prosesau anstatudol presennol (wedi'u cyfuno â dyletswydd statudol yr awdurdod amlosgi i gofnodi yn ei gofrestr sut y gwaredir ar llwch) yn ddigonol?

C8 - A ydych chi'n credu, ar ôl cofnodi casglu'r llwch neu ei leoliad yn y gofrestr, y dylai awdurdod amlosgi orfod anfon copi o'r cofnod yn y gofrestr at yr ymgeisydd? Pam / pam ddim?

b) Llwch nad yw'n cael ei gasglu

Roedd yr ICC yn argymhell prosesau penodedig ar gyfer achosion lle nad yw'r llwch yn cael ei gasglu:

- Mae'r ffurflen gais am amlosgiad yn galluogi'r ymgeisydd i awdurdodi rhywun arall i gasglu'r llwch, gan gynnwys y trefnydd angladdau.
- Os bydd y trefnydd angladdau'n casglu'r llwch, dylai'r ffurflen gynnwys cytundeb bod y trefnydd angladdau'n cael dychwelyd y llwch i'r amlogfa os nad yw'r ymgeisydd yn casglu'r llwch (neu gyfarwyddo'r trefnydd angladdau i'w waredu) o fewn cyfnod penodedig.
- Pan fydd y cyfnod hwnnw wedi mynd heibio, gall y trefnydd angladdau ddychwelyd y llwch i'r amlogfa, a bydd yr amlogfa'n cofnodi hynny yn ei gofrestr.
- Pan fydd llwch yn cael ei adael yn yr amlogfa i gael ei gasglu neu wrth aros am gyfarwyddiadau pellach o fewn cyfnod diffiniedig, a bod y cyfnod hwnnw wedi mynd heibio, gall yr awdurdod amlosgi wasgaru neu gladdu'r llwch ar ôl rhoi rhybudd o 14 diwrnod i'r ymgeisydd.

Hoffem glywed barn ymatebwyr ar y cynnig hwn ac am ba mor hir y dylai trefnwyr angladdau ac awdurdodau amlosgi ill dau gadw llwch.

C9 - A ydych chi'n credu bod y broses ar gyfer delio â llwch heb ei gasglu'n briodol? Os felly am ba hyd ddylai trefnwyr angladdau ac wedyn amlosgfeydd orfod cadw llwch o'r fath?

c) Achosion lle nad oes dim llwch

Er gwaetha'r offer a'r technegau gorau, rydym yn cydnabod bod nifer fach o achosion lle nad oes dim llwch yn weddill ar ddiwedd y broses amlosgi. Gall hyn fod yn arbennig o wir yn achos colledion yn gynnwys yn y beichiogrwydd.

C10 - A ydych chi'n credu y dylai'r ffurflen gais am amlosgiad ddatgan, er y gwneir pob ymdrech i adennill llwch, ar achlysuron prin, mae'n bosibl na ellir adennill llwch? Ynteu a ydych chi'n credu y gallai hyn achosi braw diangen i fwyafrif yr ymgeiswyr, lle mae llwch ar gael? Os ydych yn credu mai'r olaf sy'n berthnasol beth ydych chi'n feddwl fyddai'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r posibilrwydd nad oes llwch?

C11 - Os na ellir adennill llwch, a ddylai fod gofyniad ar yr awdurdod amlosgi i gynghori'r ymgeisydd o hyn a'r rheswm; a chofnodi hyn yn ei gofrestr?

4. Trefniadau cadw cofnodion yr awdurdod amlosgi

Mae'r bennod hon yn ystyried am ba hyd y dylai awdurdodau amlosgi orfod cadw cofnodion.

Nid oes gennym farn bendant ar y mater hwn na'r cwestiynau isod ac rydym felly'n gofyn am farn yr ymatebwyr.

Argymhelliad Emstrey

Dim

Argymhellion y Comisiwn Amlosgi Babanod

36 *Dylai'r Gofrestr Amlosgi fod yn ddogfen gyhoeddus a dylai Llywodraeth yr Alban wneud darpariaeth ddeddfwriaethol i sicrhau hynny, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a all fod eu hangen i ddiogelu preifatrwydd ac i gydymffurfio â gofynion diogelu data.*

39 *Dylai cofrestrau a gedwir gan awdurdodau amlosgi, Byrddau Iechyd a darparwyr gofal iechyd gael eu cadw am gyfnod amhenodol. Dylai pob ffurflen gais, tystysgrifau a dogfennau swyddogol eraill sy'n gysylltiedig ag amlosgi gael eu cadw am o leiaf 50 mlynedd. Dylid cadw'r gwreiddiol am 2 flynedd, a chopiau, a all fod mewn ffurf electronig, am weddill y 50 mlynedd.*

40 *Dylai Llywodraeth yr Alban ffurfio gweithgor gydag aelodau o awdurdodau amlosgi a darparwyr meddalwedd ar gyfer amlogsfeydd i adolygu'r cyfleusterau sydd ar gael i brosesu a storio dogfennau a chofnodion amlosgi'n electronig, i ystyried ac argymhell gwelliannau priodol i gyflawni amcanion argymhellion y Comisiwn hwn, ac i ystyried pa nodweddion a chyfleusterau ychwanegol y dylid gwahodd gweithgynhyrchwyr meddalwedd i'w datblygu, gyda golwg ar sicrhau bod y systemau a ddefnyddir gan awdurdodau amlosgi mor effeithlon a diogel â phosibl. Dylai'r gweithgor hefyd ystyried a chynghori ar y gofynion priodol ar gyfer systemau wrth gefn. Drwy roi sylw i bwysigrwydd cadw cofnodion yn ddiogel, dylai'r gweithgor hefyd ystyried a oes angen mesurau diogelwch ychwanegol a pha systemau storio wrth gefn a ddylid eu darparu.*

Y Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban)

Dywed Rhan 2 o'r Bil bod yn rhaid i bob awdurdod amlosgi gadw cofrestr o amlosgiadau a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio, yn ddi-dâl, a bod yn rhaid i gopïau o gofnodion y cofrestrau fod ar gael ar gais am dâl rhesymol. Dywed y Bil hefyd y gall Gweinidogion yr Alban wneud rheoliadau ynglŷn â'r gofrestr, gyda throseddau cysylltiedig.

Sylwebaeth

Roedd yr ICC yn argymhell y dylai cofrestr amlogsfeydd (yr Alban) fod yn ddogfen gyhoeddus, gan barchu preifatrwydd a deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn credu bod rheoliad 35 o reoliadau 2008⁷ yn cydymffurfio â nod argymhelliad yr ICC gan ei fod

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2008/2841/regulation/35/made>

eisoes yn rhoi pŵer i awdurdodau amlosgi i ganiatáu i unigolion archwilio cofrestrau, neu i roi copi (o ran o gofrestr) iddynt.

Roedd yr ICC yn argymhell hefyd y dylai amlosgfeydd gadw cofrestrau am gyfnod amhenodol a dogfennau eraill (ffurflenni, tystysgrifau a dogfennau eraill) am o leiaf 50 mlynedd (mewn copi caled am 2 flynedd ac mewn ffurf electronig wedi hynny). Yng Nghymru a Lloegr, dywed rheoliad 34 o Reoliadau 2008 bod yn rhaid i awdurdodau amlosgi gadw pob dogfen am 15 mlynedd (fel copi caled neu'n electronig, er os yn electronig, rhaid dal i gadw'r copi caled am 2 flynedd).

O dan Reoliadau 2008 mae awdurdodau amlosgi'n gyfrifol am drefnu eu systemau TG eu hunain, er mwyn cydymffurfio â gofynion cadw cofnodion y rheoliadau.

C12 - A ydych chi'n credu ei bod yn ddigon i awdurdod amlosgi i gadw cofnodion a ffurflenni sy'n gysylltiedig â chladdu ac amlosgi am 15 mlynedd (fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd)? Os ydych chi'n credu bod 15 mlynedd yn amhriodol, am ba mor hir ddylid cadw cofnodion, a beth fyddai'r buddiannau / costau i awdurdodau amlosgi? Os byddai unrhyw oblygiadau cost rhowch fanylion am ble byddai'r costau'n codi, a faint ydych chi'n rhagweld fyddai'r gost.

C13 - A oes gennych chi unrhyw enghreifftiau o arferion gorau o ran cadw cofnodion, yn electronig neu fel copi caled, yr ydych chi'n teimlo a fyddai'n fuddiol i'w rhannu ag awdurdodau amlosgi eraill?

5. Penodi arolygydd

Mae'r bennod yn ystyried a ddylid cael arolygydd awdurdodau amlosgi ac, os felly, sut rôl ddylai honno fod.

Nid oes gennym farn bendant ar y mater hwn ac rydym felly'n gofyn am farn yr ymatebwyr.

Argymhelliad Emstrey

2 *Rwyf yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ei bwerau o dan y Rheoliadau Amlosgi i benodi arolygydd annibynnol gyda phwerau tebyg i'r rhai a amlinellwyd yn argymhelliad 63 adroddiad Bonomy.*

Argymhellion yr ICC

63 *Dylai Gweinidogion yr Alban benodi arolygydd annibynnol i fonitro arferion gweithio a safonau mewn amlosgfeydd, rhoi adborth i awdurdodau amlosgi ar sut maent yn perfformio ac adrodd i Weinidogion yr Alban yn ôl y galw. Dylai'r arolygydd annibynnol gael awdurdod i ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd am arferion gweithio a safonau mewn amlosgfeydd, i ddyfarnu ar y cwynion hyn a chyflwyno'r canfyddiadau i Weinidogion yr Alban. Dylai rôl yr arolygydd gael ei hymestyn i gynnwys y diwydiant angladdau lle nad oes darpariaeth arolygu ar hyn o bryd.*

Y Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban)

Mae Rhan 4 o'r Bil yn caniatáu penodi (yn gyfun neu ar wahân) arolygydd ar gyfer claddedigaethau, amlosgfeydd a threfnwyr angladdau, ac mae'n amlinellu rôl, pwerau a chyfrifoldebau'r arolygydd (neu arolygwyr). Mae hefyd yn pennu troseddau sy'n gysylltiedig â chyfundrefn yr arolygydd a'r cosbau y gall arolygydd neu arolygwyr eu gosod.

Sylwebaeth

Mae adroddiadau'r ICC ac Emstrey ill dau'n argymhell penodi arolygydd annibynnol gyda phwerau i:

- fonitro arferion gweithio a safonau mewn amlosgfeydd;
- rhoi adborth i awdurdodau amlosgi ar eu perfformiad;
- adrodd i weinidogion y Llywodraeth yn ôl y galw; ac
- ymchwilio a dyfarnu ar gwynion gan y cyhoedd yn gysylltiedig ag arferion gweithio a safonau mewn amlosgfeydd a chyflwyno'r canfyddiadau i weinidogion.

Roedd y ddau adroddiad yn rhagweld na fyddai cylch gwaith yr arolygydd yn cael ei gyfyngu i faterion yn ymwneud ag amlosgi babanod yn unig ond y byddai'n cynnwys ystod lawn gwasanaethau amlosgi. Roedd adroddiad yr ICC hefyd yn argymhell y dylai rôl yr arolygydd gael ei hymestyn i gynnwys y diwydiant angladdau.

Yng ngoleuni argymhellion yr ICC, penododd Llywodraeth yr Alban arolygydd annibynnol ym mis Mawrth 2015. Ei rôl yw:

- sicrhau bod awdurdodau amlosgi yn yr Alban yn glynu wrth y ddeddfwriaeth bresennol ac arferion gorau
- ymateb i gwynion neu ymholiadau gan y cyhoedd am amlosgiadau
- arolygu cofrestrau amlosgi a dogfennau statudol eraill i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau a'u cadw'n briodol
- rhoi cyfarwyddyd i reolwyr a staff amlosgfeydd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol ag argymhellion yr ICC
- helpu i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol ar gladdedigaethau ac amlosgiadau.

Mae arolygydd yr Alban wedi cael ei benodi i arolygu'r 28 amlosgfa yn yr Alban (sy'n cymharu â 247o amlosgfeydd yng Nghymru a Lloegr), ar delerau rhan amser hyblyg (tua 2 ddiwrnod yr wythnos). Nid oes ganddo unrhyw staff.

Mae Rhan 4 o'r Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban) yn gwneud darpariaeth bellach o ran arolygwr yr Alban.

Mae darpariaeth statudol bresennol ar gyfer arolygu amlosgfeydd yng Nghymru a Lloegr, a chosbau am dorri rheoliadau, o dan Ddeddf Amlosgi 1902⁸. Ni chafodd y darpariaethau hyn eu gweithredu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

C14 - A ydych chi'n credu mai penodi arolygwr fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gweithio a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd? Os felly, byddai'n fuddiol i glywed eich barn ar:

- **yr hyn rydych yn meddwl dylai rôl arolygydd gynnwys - er enghraifft, a ddylai efelychu cylch gwaith presennol arolygydd yr Alban fel y'i disgrifiwyd uchod ynteu a ddylid diddymu rhai o'r cyfrifoldebau hyn neu gynnwys cyfrifoldebau eraill ac, os felly, pam?**
- **pa mor aml ydych chi'n credu dylai amlosgfeydd gael eu harolygu?**
- **ym mha ffordd a pha mor aml ydych chi'n credu y dylai'r arolygydd adrodd i Weinidogion?**
- **a fyddai rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da a drwg awdurdodau amlosgi'n ffordd effeithiol o godi safonau?**
- **a ydych chi'n credu y dylai cylch gwaith yr arolygydd gynnwys delio â chwynion?**
- **a ydych chi'n teimlo y dylai cylch gwaith yr arolygydd gael ei ymestyn i gynnwys y diwydiant angladdau?**

⁸<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Edw7/2/8/contents>

- sut ydych chi'n credu dylai arolygydd gael ei ariannu?
- sut ydych chi'n credu dylai statws annibynnol yr arolygydd gael ei warchod?

C15 - Os nad ydych chi'n teimlo mai arolygydd annibynnol fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gweithio a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd, pa ddull arall ydych chi'n feddwl a all fod ei angen i wella safonau, a sut ellid ei weithredu?

6. Gweithgor amlosgi cenedlaethol

Mae'r bennod hon yn ymdrin â sefydlu a gweithredu gweithgor cenedlaethol i wella cyfraith ac arferion amlosgi.

Rydym yn bwriadu sefydlu gweithgor a byddem yn ddiolchgar am farn ymatebwyr ar y cwestiwn isod.

Argymhelliad 6 Emstrey

Rwyf yn argymhell bod un swyddog, a fyddai'n adrodd ar hyn o beth i un gweinidog, yn cael cyfrifoldeb am gydlynu ymagwedd y Llywodraeth at gyfraith ac arferion amlosgi ac am ddwyn ynghyd, mewn ffordd gydgysylltiedig, y polisiau, gan gynnwys polisiau amgylcheddol, gwahanol adrannau'r Llywodraeth ar y pwnc.

Argymhellion yr ICC 57-60

Dylai Llywodraeth yr Alban sefydlu Pwyllgor Cenedlaethol a fyddai'n gyfrifol am amlosgi babanod a phlant bach.

Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol gael ei gadeirio gan un o uwch swyddogion Llywodraeth yr Alban. Dylai ei aelodau ddod o awdurdodau, sefydliadau, proffesiynau a chyrrff eraill sydd â rôl mewn amlosgi babanod a phlant bach, a dylai gynnwys cynrychiolaeth o grwpiau neu sefydliadau sy'n cynrychioli rhieni sydd wedi'i heffeithio ac sy'n darparu cymorth i rai mewn profedigaeth.

Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol gael y pŵer i sefydlu gweithgorau o'i aelodau, gydag aelodau cyfetholedig pan yn briodol, i ystyried argymhellion penodol yr adroddiad hwn. Byddai pob un o'r gweithgorau a argymhellir uchod yn is-grwpiau o'r Pwyllgor Cenedlaethol. Byddai hawl gan y Pwyllgor Cenedlaethol i aseinio i un o'r gweithgorau'r tasgau sydd wedi'u nodi mewn mwy nag un argymhelliad, er enghraifft, gallai is-grŵp sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn ddelio ag argymhellion sy'n gysylltiedig â materion technegol a thechnoleg amlosgi. Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol hefyd gael y pŵer i sefydlu gweithgorau i ystyried materion eraill a nodwyd gan y Pwyllgor Cenedlaethol ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cenedlaethol.

Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol adrodd i Weinidogion yr Alban yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Comisiwn hwn. Dylai'r adroddiad blynyddol hwnnw gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth yr Alban.

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cael ei sefydlu ac y byddai'n cynnal ei gyfarfod cyntaf yn ddim hwyrach na hydref 2014. Byddai'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu i ddangos sut y byddai'n gweithredu ar yr amrywiol argymhellion a wnaethpwyd gan y Comisiwn Amlosgi Babanod. Byddai'r adroddiad hwnnw'n cynnwys amserlenni ar gyfer yr holl gamau ac ar gyfer adrodd i Weinidogion, gan gynnwys cyhoeddi ei adroddiad cyntaf yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cenedlaethol.

Sylwebaeth

Gwnaeth adroddiadau Emstrey a'r ICC argymhellion gyda'r nod o wella cydlynu polisïau sy'n gysylltiedig â'r ymagwedd genedlaethol at gyfraith ac arferion amlosgi. Awgrymodd adroddiad Emstrey y dylai'r cyfrifoldeb gael ei roi i un o swyddogion y Llywodraeth. Argymhellodd yr ICC ar y llaw arall y dylid sefydlu Pwyllgor Cenedlaethol gyda chyfrifoldeb am amlosgiadau babanod a phlant bach

Mae Pwyllgor Cenedlaethol wedi'i sefydlu yn yr Alban erbyn hyn, gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU, y sefydliadau a'r sectorau sy'n gysylltiedig ag amlosgi babanod yn ogystal â rhieni. Nodau ac amcanion y Pwyllgor yw:

- datblygu, hyrwyddo a chynnal adolygiad blynyddol o God Ymarfer ar amlosgiadau babanod a phlant bach, sy'n adlewyrchu safonau ac arferion gorau cyfoes
- sicrhau bod holl argymhellion yr ICC yn cael eu gweithredu, drwy gyfuniad o drosolwg strategol, monitro a hefyd drwy dasgau uniongyrchol a fydd yn cael eu cyflawni gan Weithgorau arbenigol a gaiff eu sefydlu gan y Pwyllgor Cenedlaethol
- hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer, technoleg, polisi a deddfwriaeth
- adrodd yn flynyddol i Weinidogion ar safonau ac ymarfer mewn amlosgiadau babanod a phlant bach

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi cydlynu datblygiad polisi gwell yn y maes hwn. I'r perwyl hwnnw, ein bwriad yw y bydd gweithgor amlosgi cenedlaethol yn cael ei sefydlu i ystyried yn fanwl a, phan yn briodol, i weithredu ar argymhellion Emstrey a'r ICC. Bydd ei aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau'r Llywodraeth a sefydliadau eraill gyda diddordeb yn y maes hwn, ynghyd â chynrychiolwyr o'r sector amlosgi. Caiff union aelodaeth y grŵp, ei nodau ac amcanion a chynllun gwaith manwl eu cyhoeddi ar ôl iddynt gael eu cadarnhau.

C16 - A ddylai nodau ac amcanion y gweithgor fod yn debyg i rai Pwyllgor Cenedlaethol yr Alban? A ddylid ychwanegu, neu hepgor, unrhyw beth?

7. Hyfforddi staff amlosgfeydd a threfnwyr angladdau

Mae'r bennod hon yn ystyried yr hyfforddiant y dylai'r sawl sy'n gweithio yn a) y diwydiant amlosgi a b) y diwydiant angladdau ei gael.

Rydym yn disgwyl y bydd y gweithgor cenedlaethol yn ystyried hyn.

a) Hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer staff amlosgfeydd

Argymhelliad Emstrey

5 *Rwyf yn argymhell bod safonau sylfaenol ar gyfer hyfforddiant proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu ci gyflwyno ar gyfer staff goruchwyllo a gweithredol amlosgfeydd.*

Argymhellion yr ICC

42 *Dylai Sefydliad Rheolwyr Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) a Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) adolygu eu rhaglenni hyfforddiant technegol eu hunain yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Adran 11.*

45 *Dylai'r ICCM adolygu ei gynllun hyfforddi rheolwyr i gynnwys elfen sy'n delio ag amlosgi babanod a phlant bach ac i wneud hynny'n rhan orfodol o'r astudiaethau ar gyfer tystysgrif mewn rheoli amlosgfeydd.*

44 *Dylai'r ICCM a'r FBCA ill dau gynnwys darpariaeth yn eu rhaglenni hyfforddiant technegol eu hunain sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y technegydd dan hyfforddiant a'i fentor yn mynychu ac yn cymryd rhan, yn ystod cyfnod yr hyfforddiant ac mewn amlogfa a enwir gan y Sefydliad neu'r Gymdeithas fel un sy'n rhagori yn y ffordd mae'n cynnal amlosgiadau babanod a phlant bach, mewn diwrnod llawn o hyfforddiant yn y ffordd y mae amlosgiadau babanod a phlant bach yn cael eu cynnal ar ddau achlysur gwahanol. Dylai'r hyfforddai fodloni'r arholwr fod ganddo wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir i gynnal amlosgiadau babanod a phlant bach sy'n gwella'r rhagolygon o allu adennill llwch.*

46 *Dylai'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am reoli gweithrediadau amlogfa feddu ar naill ai gymhwyster mewn rheoli amlosgfeydd neu dystysgrif cymhwysedd y FBCA i weithredu amlosgyddion neu dystysgrif ganolraddol yr ICCM ar gyfer gweithrediadau technegol amlosgfeydd.*

47 *Dylai'r FBCA ddatblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.*

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod yr argymhellion hyn yn fater i'r ICCM/FBCA ond bod Llywodraeth yr Alban yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Byddai gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57 drosolwg. Byddai disgwyl i'r ddau sefydliad gadarnhau wrth y Pwyllgor Cenedlaethol pa bryd y byddai rhaglenni hyfforddi'n cael ei diweddarau a byddai hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Pwyllgor Cenedlaethol. Byddai mater hyfforddiant a chymwysterau'n cael ei gynnwys yn y Cod Ymarfer yn argymhelliad 61. Yn

y cyfamser byddai disgwyl i awdurdodau amlosgi sicrhau bod gan y sawl sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am reoli cymwysterau priodol.

Sylwebaeth

Argymhellodd yr ICC y dylai'r unigolyn â chyfrifoldeb rheoli uniongyrchol dros weithredu amlogsfeydd fod ag achrediad priodol, naill ai â chymhwyster mewn rheoli amlogsfeydd; tystysgrif cymhwysedd y FBCA i weithredu amlogsyddion; neu dystysgrif ganolraddol yr ICCM ar gyfer gweithrediadau technegol amlogsfeydd.

Mae hyfforddiant proffesiynol yn fater i'r ICCM a'r FBCA yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cytuno ag argymhellion Emstrey a'r ICC yn y maes hwn. Mae llawer o waith wedi'i wneud eisoes gan y cyrff proffesiynol yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu Pwyllgor Cenedlaethol yr Alban.

Ein bwriad felly yw gadael i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried yr argymhellion hyn; i adolygu'r cynnydd a wnaethpwyd eisoes, i ganfod lle gallai fod angen rhagor o waith neu addasiadau yng nghyd-destun Cymru a Lloegr; ac i ystyried a ddylid cynnwys hyfforddiant ac achrediad yng Nghod Ymarfer y diwydiant.

C17 - A ddylid cael gofyniad ar gyfer achredu, ac, os felly, a ddylai hwn gael ei amlinellu mewn Cod Ymarfer neu mewn deddfwriaeth? Rhwch resymau dros eich ymateb.

b) Hyfforddi trefnwyr angladdau

Argymhelliad Emstrey

Dim

Argymhellion yr ICC

49. *Dylai'r holl ddarparwyr rhaglenni hyfforddi ar gyfer trefnwyr angladdau adolygu eu rhaglenni yng ngoleuni unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar amlosgi babanod anhyfyw a marw-anedig a gweithdrefnau gweinyddol cysylltiedig.*

50. *Dylai'r holl ddarparwyr rhaglenni hyfforddi ar gyfer trefnwyr angladdau ddyfeisio modiwlau sydd wedi'u cynllunio i roi dealltwriaeth o'r broses amlosgi i drefnwyr angladdau, yr effaith mae'n ei gael a'r rhagolygon i allu adennill llwch ar ôl amlosgi babanod a phlant bach.*

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Dyweddodd Llywodraeth yr Alban fod yr argymhellion hyn yn fater i drefnwyr angladdau'n bennaf ond ei bod yn cefnogi'r argymhellion hyn. Byddai gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57 drosolwg dros y ddau argymhelliad a byddai disgwyl i drefnwyr angladdau yn yr Alban gadarnhau cynnydd a wnaed i'r Pwyllgor Cenedlaethol y cyfeirir ato isod.

Bu Llywodraeth yr Alban hefyd yn ystyried rheoleiddio'r diwydiant angladdau er ei bod yn teimlo ei bod y tu allan i'w chylch gwaith i edrych ar amlosgiadau babanod. Dywedodd ei bod yn awyddus i glywed barn ar ba mor ddymunol fyddai rheoleiddio'r diwydiant

angladdau, cydbwyso sicrhau safonau sylfaenol a mwy o graffu o ran costau ariannol a gweinyddol a all yn eu tro gael eu trosglwyddo i deuluoedd mewn profedigaeth.

Sylwebaeth

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r argymhellion yn adroddiad yr ICC y dylai hyfforddiant i drefnwyr angladdau roi dealltwriaeth o'r broses amlosgi a'i heffeithiau, a'r rhagolygon o adennill llwch ar ôl amlosgi babanod a phlant bach, ac y dylai'r hyfforddiant gael ei adolygu yng ngoleuni unrhyw newidiadau deddfwriaethol o ran amlosgi babanod a phlant bach a sut mae'n cael ei weinyddu. Ein bwriad felly yw y dylai rhagor o waith gael ei wneud ar hyn gan y gweithgor amlosgi cenedlaethol a fydd yn y sefyllfa orau i adolygu datblygiadau yn y maes hwn ac i ystyried a ddylai darpariaethau priodol gael eu cynnwys mewn unrhyw God Ymarfer.

8. Cod ymarfer a datganiad polisi awdurdodau amlosgi

Mae'r bennod hon yn ystyried y canlynol:

- a) Cod (neu Godau) Ymarfer cenedlaethol ar amlosgi babanod
- b) Datganiad polisi awdurdodau amlosgi

Rydym yn cynnig cael un neu fwy o Godau Ymarfer, ac na ddylai unrhyw God(au) fod yn rheoleiddiol, er mwyn caniatáu gwelliant dros amser heb orfod cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

Byddem yn gwerthfawrogi ymatebion ymatebwyr i'r cwestiynau isod, fel sail i'n meddyliau.

a) Cod (neu Godau) Ymarfer ar amlosgi babanod

Argymhelliad Emstrey

1 *Rwyf yn argymhell bod y Llywodraeth yn Cymryd camau i sicrhau cod ymarfer sengl ac awdurdodol ar gyfer amlosgi babanod a phlant bach.*

Argymhelliad yr ICC

61 *Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol, fel blaenoriaeth, ddatblygu Cod Ymarfer cenedlaethol ar gyfer amlosgi babanod a phlant bach. Dylai Cod o'r fath, a ddylai fod yn seiliedig ar argymhellion y Comisiwn hwn, bennu gofynion sylfaenol y dylai sefydliadau lynu wrthynt wrth helpu rhieni a theuluoedd mewn profedigaeth drwy'r broses amlosgi babanod a phlant bach, a cheisio canfod arferion gorau a fyddai'n cael eu dilyn gan bob corff sy'n gysylltiedig ag amlosgi babanod a phlant bach. Dylai'r Cod Ymarfer gynnwys egwyddorion cyffredinol a chanllaw yn ogystal â chanllaw technegol a gweithredol penodol ar gyfer awdurdodau amlosgi, Byrddau Iechyd a threfnwyr angladdau, gyda golwg ar gyflawni safonau uchel cyson mewn ymarfer ymhlith pawb sydd â rôl i'w chwarae mewn amlosgi babanod a phlant bach.*

62 *Dylai'r Cod Ymarfer fod yn ddogfen fyw sydd nid yn unig yn ymateb i ddatblygiadau, ond sydd hefyd yn allweddol i hyrwyddo gwelliannau, mewn ymarfer, technoleg, polisi a deddfwriaeth. Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol felly barhau i fonitro datblygiadau ym mhob agwedd ar weithgarwch sy'n gysylltiedig ag amlosgi babanod a phlant bach ac adolygu'r Cod yn flynyddol i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu safonau ac arferion gorau cyfoes.*

Y Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban)

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion i gyhoeddi Codau Ymarfer ar gyfer awdurdodau claddu ac amlosgi ac ar gyfer trefnwyr angladdau, ac mae'n datgan bod yn rhaid ymgynghori ar y Codau pan fyddant yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf ac y byddant yn cael eu hadolygu wedi hynny.

Sylwebaeth

Mae adroddiadau Emstrey a'r ICC yn argymhell sefydlu Cod Ymarfer cenedlaethol sengl ar amlosgi babanod. Diben hyn oedd pennu gofynion sylfaenol ar gyfer pob sefydliad a oedd yn helpu rhieni mewn profedigaeth, ac i benderfynu ar arferion gorau. Y nod oedd cael cysondeb a safonau ymarfer uchel ymhlith pawb sy'n gysylltiedig â rheoli profedigaeth a'r broses amlosgi. I'r perwyl hwnnw, argymhellwyd, yn ychwanegol at egwyddorion cyffredinol a chanllaw, y dylai'r Cod Ymarfer gynnwys canllaw technegol a gweithredol penodol ar gyfer awdurdodau amlosgi, darparwyr gofal iechyd a threfnwyr angladdau.

Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol bod gan y sawl sy'n darparu gwasanaethau i rieni mewn profedigaeth ar adeg mor anodd yn eu bywydau gymwysterau priodol i wneud hynny, eu bod yn gallu dangos sensitifrwydd a gofal yn eu ffordd o weithio, a bod ganddynt yr offer angenrheidiol i'w galluogi i adennill llwch pan fo hynny'n bosibl. I'r perwyl hwn, rydym yn cefnogi sefydlu Cod Ymarfer yng Nghymru a Lloegr.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi Cod Ymarfer cychwynnol, cryno ar amlosgi babanod⁹ sy'n cael ei atgynhyrchu yn **Atodiad A**. Disgwylir y bydd y fersiwn lawnach, derfynol yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd 2015 ac y bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan Bwyllgor Cenedlaethol yr Alban. Mae'r rhain yn defnyddio Codau'r diwydiant a sefydlwyd gan y FBCA a'r ICCM. Rydym felly'n bwriadu y bydd datblygiad manwl cod ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael ei weithredu gan y gweithgor amlosgi cenedlaethol yn flaenoriaeth.

C18 - I helpu'r gwaith ar God Ymarfer, byddwn yn falch o glywed barn ar y cwestiynau canlynol:

- **Gan gymryd Cod Ymarfer yr Alban fel man cychwyn, pa newidiadau, os o gwbl, a all fod angen eu gwneud yng nghyd-destun Cymru a Lloegr – a pham?**
- **A ddylid cael codau ar wahân ar gyfer amlosgi babanod ac ar gyfer amlosgi'n fwy cyffredinol – ac, os felly, pam?**
- **A ddylai'r cod(au) ymgorffori'r Cod Ymarfer technegol a argymhellwyd yn adroddiad Emstrey (gweler Pennod 9 (arferion gweithio awdurdodau amlosgi ar adennill llwch) am ragor o fanylion) ynteu a ddylai hyn gael ei ddatblygu ar wahân?**
- **A ddylai'r Cod Ymarfer (neu god ar wahân ar amlosgi babanod) ymgorffori'r cod ar amlosgi a rennir a argymhellwyd yn adroddiad yr ICC (gweler Pennod 11 am ragor ar amlosgiadau a rennir) ynteu a ddylai hyn gael ei ddatblygu ar wahân?**

Er mwyn i God Ymarfer cenedlaethol fod yn effeithiol, mae angen iddo fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn sgil datblygiadau yn safonau'r diwydiant. Bydd angen mecanwaith hefyd ar gyfer monitro ac, os bydd angen, i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r cod.

C19 - Rydym felly'n awyddus i glywed barn ar y canlynol:

- **A ddylai'r Cod(au) Ymarfer gael ei adolygu'n flynyddol, ynteu'n llai aml?**

⁹<http://www.gov.scot/Resource/0047/00478003.pdf>

- Sut ddylid monitro cydymffurfiaeth â'r Cod(au)?
- A ydych chi'n credu y dylai methiant i gydymffurfio â'r Cod(au) Ymarfer gael ei gyhoeddi?

b) Datganiad polisi awdurdodau amlosgi

Argymhelliad yr ICC

11 Dylai pob awdurdod amlosgi gyhoeddi datganiad polisi, ac a ddylai gynnwys ymrwymiad i drin y baban mewn ffordd sensitif gydol yr amser a pharchu dymuniadau ac anghenion rhieni a theuluoedd, a hefyd ddatgan polisi'r awdurdod ar lwch. I sicrhau eglurder a chysondeb dylai'r ICCM a'r FBCA ffurfio cydweithgor i ddatblygu datganiad polisi enghreifftiol sy'n adlewyrchu arferion gorau ac sy'n caniatáu ar gyfer amrywiadau lleol fel bydd yn briodol.

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhelliad yr ICC

Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod hwn yn fater i awdurdodau amlosgi a'r ICCM a'r FBCA, ond bod Llywodraeth yr Alban yn cefnogi'r argymhelliad ac yn disgwyl y byddai awdurdodau amlosgi'n rhoi blaenoriaeth i ymateb i'r argymhelliad hwn, yn seiliedig ar gyngor gan yr ICCM a'r FBCA. Byddai Llywodraeth yr Alban yn cefnogi unrhyw drafodaethau ar y cyd rhwng yr ICCM a'r FBCA a all fod eu hangen. Ni all Llywodraeth yr Alban weld dim rheswm pam na ellir cyhoeddi datganiadau polisi o'r fath ar fyrder. Byddai disgwyl bod gan awdurdodau amlosgi ddatganiad polisi priodol ar waith erbyn diwedd Awst 2014. Byddai awdurdodau amlosgi'n adrodd ar gynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cenedlaethol. Byddai mater datganiadau polisi'n cael ei gynnwys yn y Codau Ymarfer yn argymhellion 29 a 61.

Sylwebaeth

Roedd adroddiad yr ICC yn argymhell bod datganiad polisi pob awdurdod amlosgi'n cael ei gyhoeddi ac y byddai'n disgrifio eu hymrwymadau o ran amlosgi babanod a'u polisi ar lwch. Roedd yr argymhelliad yn annog datblygu datganiad polisi ar y cyd gan y sefydliadau cynrychioliadol a fyddai'n adlewyrchu arferion gorau ond a fyddai'n caniatáu amrywiadau lleol. Mae pob awdurdod amlosgi yn yr Alban bellach wedi cyhoeddi datganiadau polisi cytunedig o'r fath.

Fel mewn meysydd eraill, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod llawer o waith wedi'i wneud eisoes yn dilyn argymhellion yr ICC. Ein bwriad felly yw trosglwyddo ystyriaeth bellach o'r argymhelliad i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol, i adolygu'r cynnydd a wnaethpwyd eisoes; i ganfod lle all fod angen gwaith neu addasiadau ychwanegol yng nghyd-destun Cymru a Lloegr; monitro gweithredu; ac ystyried a ddylai darpariaethau priodol gael eu cynnwys mewn unrhyw God Ymarfer.

9. Arferion awdurdodau amlosgi ar adennill llwch

Mae'r bennod hon yn disgrifio bwriad y Llywodraeth ar gyfer y gweithgor cenedlaethol i ystyried y fframwaith technegol gorau ar gyfer adennill llwch babanod.

Argymhelliad Emstrey

3 *Rwyf hefyd yn argymhell bod cyfrifoldebau'r arolygydd yn cynnwys hyrwyddo cod ymarfer cenedlaethol sengl ar gyfer technoleg amlosgyddion a thechnegau ar gyfer amlosgiadau babanod er mwyn cynyddu'r siawns o allu cadw llwch i'w ddychwelyd i'r sawl sydd wedi gwneud y cais am yr amlosgiad.*

Argymhellion yr ICC

8 *Fel mesur dros dro brys, dylai'r ICCM a Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) ffurfio cydweithgor, a ddylai hefyd gynnwys dau unigolyn lleyg a enwebir gan Lywodraeth yr Alban a chynrychiolydd o Facultatieve Industries Ltd, i ystyried y gwahanol arferion a thechnegau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer amlosgi babanod a phlant bach mewn amlosgyddion maint llawn gyda golwg ar ganfod yr arferion hynny sydd orau i gynyddu'r rhagolygon o adennill llwch sy'n cynnwys gweddillion y baban a llunio canllaw ar gyfer gweithredwyr amlosgyddion. Dylai'r gweithgor ganfod agweddau ar y broses amlosgi y gellid o bosibl eu newid neu eu gwella a lle dylai Llywodraeth yr Alban gomisiynu gwaith ymchwil. Gallai'r ffaith bod mwyafrif yr amlosgyddion sy'n cael eu defnyddio yn yr Alban wedi cael eu cynhyrchu gan yr un gweithgynhyrchydd, Facultatieve Technologies Ltd, helpu ymdrechion y gweithgor.*

9 *Ar ôl cwblhau ei waith yn 8 uchod, dylai'r gweithgor hwnnw hefyd ystyried systemau gweithredu a nodweddion eraill yr amlosgyddion sy'n cael eu defnyddio yn yr Alban a'r arferion gweithio a ddefnyddir ar hyn o bryd gyda golwg ar ganfod yr agweddau hynny ar y broses amlosgi y gellid o bosibl eu gwella a lle dylai Llywodraeth yr Alban gomisiynu gwaith ymchwil. Dylai hynny gynnwys yr arfer o amlosgi babanod ar ddiwedd y diwrnod gwaith a dros nos gyda'r amlosgwr yn gweithio a'r offer monitro wedi'u diffodd mewn ffordd na fydd yn achosi dim difrod amgylcheddol arwyddocaol ac sy'n bodloni SEPA y dylai gael ei ganiatáu, gyda golwg ar gynyddu'r posibilrwydd o adennill llwch.*

10 *Dylai'r gweithgor hwnnw ystyried a chynghori a ddylai Llywodraeth yr Alban, yng ngoleuni profiad Lloegr ac Iwerddon, a thrwy roi sylw i'w heffeithiolrwydd i adennill llwch a chostau gosod a gweithredu, gomisiynu ymchwil i ddyluniad a datblygiad amlosgyddion llai.*

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Roedd Llywodraeth yr Alban o'r farn bod argymhellion 8, 9 a 10 yn fater i'r ICCM a'r FBCA ond roedd yn cefnogi'r argymhelliad. Byddai Llywodraeth yn rhoi unrhyw gymorth a fyddai ei angen i'r ICCM a'r FBCA i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Byddai'n gweithio â rhieni a effeithir i ganfod dau aelod lleyg ar gyfer y grŵp hwn.

Ymatebodd Llywodraeth yr Alban drwy ddweud y byddai'r sefydlu'r Gweithgor yn flaenoriaeth yn ystod haf 2014 ac yn y man byddai'n is-grŵp o'r Pwyllgor Cenedlaethol fel yr argymhellwyd yn argymhelliad 57, ar ôl i'r Pwyllgor hwnnw gael ei sefydlu.

6 *Dylai pob awdurdod amlosgi nad yw eu hamlosgfeydd bob amser yn llwyddo i adennill llwch gysylltu ag amlosgfa neu amlosgfeydd lle mae llwch yn cael ei adennill yn fwy rheolaidd i rannu eu profiadau a gwybodaeth am eu harferion eu hunain er mwyn canfod newid mewn arferion gweithio a ddylai gael eu cyflwyno ar unwaith gyda golwg ar gynyddu'r rhagolygon o adennill llwch.*

7 *Dylai'r awdurdodau amlosgi sydd wedi ymwrthod â defnyddio platiau ar gyfer amlosgiadau babanod am resymau diogelwch ailystyried ar unwaith, a hynny ar sail profiadau awdurdodau eraill, cyflwyno protocol lleol i ganiatáu i blatiau gael eu defnyddio mewn ffordd na fydd yn arwain at unrhyw risg ddiangen.*

2 *Dylai'r FBCA, yn ystod ei ymweliadau "cyfaill beirniadol" ag amlosgfeydd a'r ICCM yn ei holiaduron hunan asesu roi sylw penodol i'r ffordd y mae amlosgiadau babanod yn cael eu cynnal ac i ymdrechion i adennill llwch.*

43 *Dylai'r FBCA adolygu'r holl ddogfennau canllaw cyhoeddedig i gael arweiniad clir ar sail gwybodaeth ar y rhagolygon o adennill llwch sy'n seiliedig ar wybodaeth am aeddfedrwydd ysgerbydol yn hytrach nag oedran beichiogrwydd yn unig.*

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Roedd Llywodraeth yr Alban o'r farn bod argymhellion 6 a 7 yn fater i'r awdurdodau amlosgi ond roedd yn cefnogi'r argymhellion ac roedd yn disgwyl i bob awdurdod amlosgi gymryd camau ar unwaith i sicrhau bod arferion yn cael eu mabwysiadu a fyddai'n cynyddu'r posibilrwydd o adennill llwch. Byddai'r broses o weithredu'r argymhellion yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57. Byddai Llywodraeth yr Alban yn disgwyl bod awdurdodau amlosgi'n adrodd yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cenedlaethol ar eu cynnydd tuag at weithredu'r argymhelliad hwn.

Roedd Llywodraeth yr Alban o'r farn bod argymhelliad 2 yn fater i'r FBCA a'r ICCM yn bennaf, ond roedd yn cefnogi'r argymhelliad a byddai disgwyl i'r FBCA a'r ICCM newid eu harferion gweithio ar sail yr argymhelliad.

Roedd Llywodraeth yr Alban o'r farn bod argymhelliad 43 yn fater i'r FBCA yn bennaf, ond roedd yn cefnogi'r argymhelliad. Roedd yn disgwyl y byddai'r FBCA yn rhoi blaenoriaeth i ddiweddarau'r holl ddogfennau canllaw cyhoeddedig a oedd yn cael eu defnyddio yn yr Alban. Gofynnir i'r FBCA gadarnhau i'r Pwyllgor Cenedlaethol pa ddeunyddiau fyddai'n cael eu diweddarau. Byddai mater dogfennau Canllaw yn cael sylw yn y Cod Ymarfer yn argymhelliad 61.

Sylwebaeth

Gwnaeth adroddiadau Emstrey a'r ICC gyda'i gilydd nifer o argymhellion yn ymwneud â'r fframwaith technegol ar gyfer adennill llwch babanod, gyda'r nod o wella'r posibilrwydd o'i adennill. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys sefydlu Cod Ymarfer cenedlaethol; sefydlu gweithgor ar gyfer y diwydiant i ganfod a hyrwyddo arferion gorau ac i ymdrechu i wella o safbwynt prosesau a thechnegau; cysylltu rhwng awdurdodau amlosgi i wella dysgu drwy arferion gorau; adolygu'r defnydd o blatiau amlosgi babanod gan yr

awdurdodau amlosgi hynny nad ydynt yn eu defnyddio; monitro mwy clos gan gyrff y diwydiant o'r ffordd y mae amlosgiadau'n cael eu cynnal yn lleol ac adennill llwch; ac adolygiad o ganllaw'r FBCA sy'n ymwneud â'r rhagolygon o adennill llwch.

Fel mewn meysydd eraill, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod llawer o waith wedi'i wneud eisoes yn dilyn yr argymhellion hyn. Mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu trosglwyddo gwaith manwl pellach yn y maes hwn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol, i adolygu'r cynnydd a wnaethpwyd eisoes; i ganfod lle all fod angen gwaith neu addasiadau ychwanegol yng nghyd-destun Cymru a Lloegr; i fonitro gweithredu; ac ystyried a ddylai darpariaethau priodol gael eu cynnwys mewn unrhyw God Ymarfer ac, os felly, a ddylai hwn fod mewn cod cyffredinol neu, fel yr oedd adroddiad Emstrey yn ei argymhell, un ar wahân sy'n delio'n benodol â materion technegol.

10. Gwybodaeth ac arweiniad i rieni mewn profedigaeth

Mae'r bennod hon yn ystyried yr wybodaeth y mae rhieni mewn profedigaeth yn ei chael am amlosgi gan drefnwyr angladdau a gweithwyr iechyd proffesiynol ar ôl colli baban a sut y gellid gwella'r wybodaeth lle mae angen.

Nid oes gennym farn bendant ar y materion hyn ac rydym yn awyddus i glywed barn yr ymatebwyr.

Argymhelliad Emstrey

Dim

Argymhellion yr ICC

48. *Dylid hysbysu mamau babanod anhyfiw a theuluoedd babanod marw-anedig a babanod ifanc iawn sydd wedi marw o'r posibilrwydd na ellir adennill llwch, a'u hatgoffa o'r opsiwn i gladdu.*

12. *Dylai trefnwyr angladdau a staff gofal iechyd gynnwys detholion priodol o bolisi'r awdurdod amlosgi mewn gwybodaeth ac arweiniad a roddir i deuluoedd.*

51. *Dylai pob Bwrdd Iechyd, fel rhan o wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus, enwi staff sydd â chyfrifoldeb am gyfathrebu â theuluoedd ynglŷn â threfniadau ar gyfer gwaredu a chysylltu â threfnwyr angladdau ac amlosgfeydd ac, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, trefnu addysg a hyfforddiant pellach yn y sgiliau angenrheidiol, gan gynnwys datblygu eu sgiliau cyfathrebu, gwella eu dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau cydweithwyr, ac egluro'r hyn yn gall offer amlosgi modern ei gyflawni ac arferion gweithio cyfoes mewn amlosgfeydd ac effaith amlosgi ar fabanod a phlant bach.*

52. *Dylai Byrddau Iechyd helpu staff i sefydlu gweithgorau amlddisgyblaethol lleol sy'n cynnwys pawb sy'n gyfrifol am ddelio â ffawd y baban o'r ysbyty i'r amlosgfa er mwyn cyfnewid gwybodaeth, dealltwriaeth, arferion gweithio a phrofiad, yn ogystal â hyrwyddo rhaglenni hyfforddi ar y cyd, gyda'r nod o sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r cyfleusterau sydd ar gael a'r arferion sy'n cael eu dilyn yn lleol.*

53. *Dylai Byrddau Iechyd, sefydliadau sy'n rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i deuluoedd mewn galar fel SANDS UK a'r Miscarriage Association, trefnwyr angladdau, yr ICCM a'r FBCA, ac unrhyw gorff arall sy'n rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i rieni a theuluoedd mewn galar adolygu'r holl gyhoeddiadau sy'n ymdrin ag amlosgi sy'n debygol o gael eu dosbarthu, neu gael eu gweld gan y cyhoedd, i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gywir sy'n cael ei mynegi'n glir a chyson, gan gynnwys gwybodaeth benodol ar y rhagolygon o adennill llwch, a'u bod yn atgoffa teuluoedd bod yr opsiwn o gladdu ar gael.*

54. *Dylai Llywodraeth yr Alban sefydlu gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob Bwrdd Iechyd o dan gadeiryddiaeth swyddog o Lywodraeth yr Alban i adolygu'r holl ddogfennau canllaw a'r taflenni gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio gan y Byrddau Iechyd a darparwyr gofal iechyd preifat, gan gynnwys rhai sydd wedi cael eu paratoi gan, neu mewn cydweithrediad â, chyrrff fel SANDS a'r Miscarriage Association, sy'n ymdrin â cholli beichiogrwydd a phrofedigaeth ar ôl colli baban a threfnu ar gyfer gwaredu, gyda golwg ar*

sicrhau cysondeb yn yr wybodaeth a'r arweiniad dan sylw, ac ymdrechu i leihau'r gormodedd o wahanol ddogfennau sy'n cael eu defnyddio.

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

(I argymhelliad 48) Dywedodd Llywodraeth yr Alban y dylai rhoi gwybodaeth i rieni fod yn rhan o'r Cod Ymarfer a gynigiwyd yn argymhelliad 61. Bydd y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigiwyd yn argymhelliad 57 yn bwrw ymlaen â'r gwaith i ddatblygu'r Cod Ymarfer newydd yn argymhelliad 61.

(I argymhellion 12 a 51) Dywedodd Llywodraeth yr Alban y dylai trefnwyr angladdau a'r GIG sicrhau bod datganiadau polisi'r awdurdodau amlosgi perthnasol yn cael eu cynnwys mewn gwybodaeth ac arweiniad cyn gynted â phosibl. Dylai'r GIG a threfnwyr angladdau sicrhau bod deunyddiau'n cael eu diweddarau cyn gynted ag y bydd polisïau'n cael eu cyhoeddi gan awdurdodau amlosgi. Bydd y gwaith o weithredu'r argymhelliad hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigiwyd yn argymhelliad 57, a byddai cyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn ystyried cynnydd yn erbyn gweithredu'r argymhelliad hwn.

Byddai Llywodraeth yr Alban yn gweithio â GIG yr Alban a'r Colegau Brenhinol perthnasol i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael a'i fod yn cael ei ddilyn. Byddai gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57 drosolwg dros yr argymhelliad hwn a byddai cynrychiolwyr GIG yr Alban yn cadarnhau pan fyddai'r trefniadau hyfforddi'n barod. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Gweithredu'r Pwyllgor Cenedlaethol a ddisgrifir isod. Byddai'r argymhelliad hwn hefyd yn cael sylw yn y Cod Ymarfer yn argymhelliad 61.

(I argymhelliad 52) Dywedodd Llywodraeth yr Alban bod hyn yn fater yn bennaf i Fyrddau Iechyd ond mae Llywodraeth yr Alban yn cefnogi dull o'r fath a byddai'n disgwyl y byddai Byrddau Iechyd a sefydliadau eraill yn sefydlu grwpiau amlddisgyblaethol lleol. Byddai'r gwaith o ffurfio grwpiau o'r fath yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57, ond gall y gwaith o sefydlu grwpiau o'r fath ddechrau ar unwaith. Byddai gweithredu grwpiau o'r fath yn cael ei weld fel ymarfer da a byddai'n cael ei gynnwys yn y Cod Ymarfer a gynigir yn argymhelliad 61.

(I argymhelliad 53) Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod hyn yn fater i'r sefydliadau perthnasol i'w gyflawni ond bod Llywodraeth yr Alban yn cefnogi'r argymhelliad. Roedd yn bwysig bod gwybodaeth gyson a chywir yn cael ei rhoi i deuluoedd mewn profedigaeth. Dylai sefydliadau roi blaenoriaeth i ddechrau diweddarau deunyddiau yng ngoleuni canfyddiadau'r Comisiwn Amlosgi Babanod, a byddai'r Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57 yn goruchwylio hyn. Byddai adolygiad rheolaidd o ganllawiau a chyhoeddiadau'n cael ei gynnwys yn y Cod Ymarfer a gynigir yn argymhelliad 61.

(I argymhelliad 54) Dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cenedlaethol a gynigir yn argymhelliad 57, naill ai o fewn y Pwyllgor ei hun neu drwy is-grŵp a sefydlid i'r diben hwn. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Gweithredu'r Pwyllgor Cenedlaethol a ddisgrifir isod.

Sylwebaeth

Gwnaeth adroddiad yr ICC nifer o argymhellion yn ymwneud â safonau a chysondeb wrth gydlynu a chyfleu gwybodaeth ac arweiniad i rieni mewn profedigaeth. Roedd rhai o'r argymhellion hyn yn gofyn am gynnwys darparwyr gofal iechyd, ac roedd eraill ar gyfer awdurdodau amlosgi'n bennaf ynghyd â sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am roi cymorth i rieni mewn profedigaeth.

Fel mewn meysydd eraill, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod llawer o waith wedi'i wneud eisoes yn dilyn argymhellion yr ICC. Mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu trosglwyddo gwaith manwl pellach yn y maes hwn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol, i adolygu'r cynnydd a wnaethpwyd eisoes; i ganfod lle all fod angen gwaith neu addasiadau ychwanegol yng nghyd-destun Cymru a Lloegr (gan gynnwys lle byddai angen cyfieithiadau i'r Gymraeg neu ieithoedd eraill); ac i ystyried a ddylid cynnwys darpariaethau priodol mewn unrhyw God Ymarfer.

C20 - A oes gennych chi enghreifftiau o arferion da o roi gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth? Os felly, rhowch fanylion.

11. Amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed

Mae'r bennod hon yn edrych ar reoleiddio posibl yn achos ffetysau llai na 24 wythnos. Yn fwyaf penodol mae'n ystyried:

- a) Beth sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr yn awr
- b) Materion cyffredinol yn ymwneud â rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos
- c) Ffurflen gais a phroses ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos
- d) Amlosgiadau'n dilyn colli beichiogrwydd cyn 24 wythnos y tu allan i ysbytai
- e) Pwy ddylai wneud cais i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos
- f) Tystio ffurflen gais
- g) Cadw cofnodion o amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos

Nid oes gennym eto farn bendant ar y materion hyn ac rydym yn awyddus i glywed sylwadau ymatebwyr.

Argymhelliad Emstrey

Dim

Argymhelliad yr ICC

13 *Dylai amlosgi babanod anhyfyw fod yn destun rheoleiddio deddfwriaethol.*

14 *Dylai ffurflenni cais priodol ar gyfer amlosgi gael eu rhagnodi ar gyfer pob un o'r tri chategori ar gyfer amlosgi babanod a phlant bach: (a) babanod marw-anedig (b) amlosgiad a rennir ar gyfer babanod anhyfyw; a (c) amlosgi baban anhyfyw'n unigol.*

15 *Ar bob ffurflen gais ar gyfer amlosgi dylid cynnwys rhybudd amlwg, mewn geiriau sy'n briodol ar gyfer y ffurflen honno, bod posibilrwydd na ellir adennill llwch, gyda darpariaeth i'r ymgeisydd gydnabod ei fod wedi darllen y rhybudd. Mewn achos o (b) amlosgiadau a rennir, dylai'r rhybudd ddatgan hefyd y bydd unrhyw lwch a gaiff ei adennill yn cael ei wasgaru neu ei gladdu, gan nodi pa un, yn yr amlosgfa.*

16 *Yng nghyd-destun cyflwyno proses newydd ar gyfer tystysgrifau marwolaeth, dylai Llywodraeth yr Alban adolygu'r cynnwys rhagnodedig cyfredol y Ffurflen gais A ar gyfer amlosgi i sicrhau mai dim ond cwestiynau hanfodol sy'n cael eu cynnwys yn y ffurflenni rhagnodedig ar gyfer (a) [babanod marw-anedig] a (c) [amlosgi baban anhyfyw'n unigol].*

22 *Dylai'r ffurflenni a ragnodir ar gyfer (a) [babanod marw-anedig] a (c) [amlosgi baban anhyfyw'n unigol] gael eu cwblhau a'u llofnodi'n bersonol gan yr ymgeisydd, a dylai unigolyn nad yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd ac sydd heb ran yn y trefniadau ar gyfer yr amlosgiad fod yn dyst i'r llofnodi.*

23 Dylid datgan mewn deddfwriaeth mai'r sawl sydd â hawl i wneud cais i amlosgi yw: (i) yn achos [babanod marw-anedig] a (c) [amlosgi baban anhyfyw'n unigol] y perthynas agosaf fel y'i diffinnir yn adran 50 o Ddeddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006; ac (ii) yn achos (b) [amlosgiad a rennir ar gyfer babanod anhyfyw] unigolyn a awdurdodwyd gan Gyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd neu ddarparwr gofal iechyd arall, ac y dylai cais a gyflwynir gan unigolyn gwahanol gael ei dderbyn ar yr achos a ddangosir yn unig, ac y dylid ei gofnodi yn y gofrestr y cyfeirir ati isod.

24 Dylai uwch staff awdurdodau amlosgi fod yn gyfrifol am graffu ar bob ffurflen gais i amlosgi i fodloni eu hunain bod gan yr ymgeisydd hawl i wneud y cais fel mam, perthynas agosaf neu ar achos a ddangosir. Dylid cael darpariaeth deddfwriaethol sy'n datgan, os nad yw'r awdurdod amlosgi'n fodlon bod gan yr ymgeisydd hawl i wneud cais, yna gellir gwrthod rhoi awdurdod i'r amlosgiad fynd yn ei flaen.

29 Dylai Llywodraeth yr Alban sefydlu gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd, trefnwyr angladdau, awdurdodau amlosgi a mudiadau sy'n darparu cymorth i deuluoedd sydd wedi profi camesgoriad neu sydd mewn profedigaeth i ystyried arferion sy'n esblygu yn y ffordd mae amlosgiadau a rennir yn cael eu trefnu a'u cynnal ac i lunio cod ymarfer sy'n pennu safonau sylfaenol ar gyfer amlosgiadau a rennir.

30 Dylai Canllaw'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio 2012 ar waredu sensitif gael ei adolygu a dylid ystyried ei ddiwygio i roi sylw i'r sylwadau a wnaethpwyd yn Adran 9.

31 Dylid diwygio Atodiad C yng Nghanllaw'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio i: (i) bennu'r opsiynau ar gyfer gwaredu a eglurir wrth y fam uwchben y gofod ar gyfer ei llofnod; (ii) datgan efallai na fydd modd adennill llwch ar ôl amlosgi, ac y bydd unrhyw lwch y gellir ei adennill yn cael ei wasgaru neu ei gladdu yn yr amlosgfa a (iii) datgan yn benodol mai'r drefn safonol a ddilynir pan fydd y fam yn gwrthod trafod gwaredu yw amlosgi gydag eraill.

32 Dylai'r ffurflen gais ar gyfer (b) [amlosgiad a rennir ar gyfer babanod anhyfyw] ddatgan fod pob mam wedi awdurdodi'r ysbyty i drefnu amlosgiad a rennir, a bod yr awdurdodiad hwnnw'n cael ei gadw yng nghofnodion yr ysbyty.

33 Dylai tystysgrif feddygol gyd-fynd â phob cais i amlosgi baban anhyfyw sy'n datgan bod y beichiogrwydd wedi'i golli cyn 24 wythnos ac nad oedd dim arwyddion o fywyd.

34 Dylai awdurdodau amlosgi, trefnwyr angladdau a Byrddau Iechyd adolygu'r trefniadau contract sydd ar waith ar gyfer amlosgiadau a rennir yng ngoleuni canllaw'r ICCM a geir yn Adran 6 i fodloni eu hunain bod eu cyfrifoldebau fel un o'r partïon yn cael eu diffinio mewn ffordd sy'n sicrhau bod amlosgiadau'n cael eu cynnal mewn ffordd urddasol a sensitif.

35 Bydd y deddfwriaeth yn datgan y bydd yn rhaid i bob awdurdod amlosgi gofnodi amlosgiad pob baban a fu farw, pob baban marw-anedig a phob baban anhyfyw a gynhaliwyd gan yr awdurdod amlosgi mewn cofrestr neu gofrestrau sy'n cynnwys colofnau rhagnodedig, a bydd yn rhaid cwblhau pob un gan gynnwys, yn benodol, os cafodd y llwch ei wasgaru neu ei gladdu, y dyddiad a'i leoliad ac, os cafodd ei gasglu, y dyddiad a chan bwyl.

37 *Dylai pob Bwrdd Iechyd a darparwyr gofal iechyd gadw cofrestr o awdurdodiadau lle mae'r amlogfa lle cafodd y baban ei amlosgi'n cael ei gofnodi mewn ffyrdd sy'n sicrhau y gellir olrhain y cysylltiad rhwng y baban a'r llwch.*

38 *Gan fod cyfrifoldeb am gadw cofnodion pwysig sy'n ymwneud ag amlosgiadau wedi'u trefnu gan ysbytai yng ngofal yr ysbyty neu'r darparwr gofal iechyd, dylai Llywodraeth yr Alban benodi gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a chynrychiolydd o'r sector gofal iechyd preifat, o dan gadeiryddiaeth swyddog o Lywodraeth yr Alban, i adolygu arferion cadw cofnodion ysbytai a darparwyr gofal iechyd eraill o ran dogfennau sy'n berthnasol i amlosgiadau babanod a phlant bach gyda golwg ar ganfod arferion gorau y gellid eu rhoi ar waith yn yr Alban.*

Y Bil Claddu ac Amlosgi (yr Alban)

Mae Rhan 3 o'r Bil yn ymdrin ag amlosgi babanod anhyfyw. Dywed fod yn rhaid i Awdurdodau Iechyd yn yr Alban roi cyfle i fenywod benderfynu'r hyn a hoffai ei wneud â'r gweddillion ar ôl colli beichiogrwydd. Dywed y Bil hefyd y gall menyw newid ei meddwl o fewn 5 wythnos ar ôl ei phenderfyniad gwreiddiol os nad yw'r amlosgiad (neu'r gladdedigaeth) wedi digwydd eto. Rhaid i'r awdurdod gadw cofnod o'r hyn sy'n digwydd ar ffurflen ragnodedig ac mewn cofrestr.

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Mae Llywodraeth yr Alban wedi derbyn argymhellion 30 a 31 a dywedodd y bydd Canllaw'r Prif Swyddog Meddygol / Prif Swyddog Nyrsio'n cael ei ddiweddarau. Yn achos argymhelliad 16 byddai Ffurflen A yn cael ei hadolygu fel rhan o weithredu Deddf Ardystio Marwolaethau (yr Alban) 2011. Dylid sefydlu gweithgor i ystyried y pwyntiau a godwyd yn argymhelliad 29. Roedd Llywodraeth yr Alban yn cefnogi argymhelliad 34, gydag amlosgiadau o'r fath i gael eu cynnal yn unol â'r cod ymarfer a fyddai'n cael ei ddatblygu'n ôl argymhelliad 29.

Beth sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr yn awr

Y ddeddfwriaeth a'r canllaw cyfredol yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, nid yw amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos¹⁰ yn dod o dan reoliadau 2008 ar hyn o bryd, er bod rhai awdurdodau amlosgi yn amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos (tua 38,000 o amlosgiadau'r flwyddyn, gan gynnwys amlosgiadau a rennir¹¹).

I ddibenion y Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf MD), sy'n weithredol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae ffetysau llai na 24 wythnos yn cael eu hystyried fel meinwe'r fam. Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA)¹² yn rheoleiddio sefydliadau sy'n tynnu, storio ac yn defnyddio meinweoedd dynol i ddibenion a drefnwyd fel yr

¹⁰ Rydym yn diffinio ffetws gyda chyfnod beichiogrwydd sy'n llai na 24 wythnos oed fel un nad oedd yn dangos dim arwyddion o fywyd ar y tu allan i groth y fam. Mae'r ICC yn cyfeirio at y ffetysau hyn fel baban anhyfyw (Mae baban a anwyd sy'n dangos arwyddion o fywyd mewn unrhyw gyfnod beichiogrwydd yn cael ei gyfrif fel genedigaeth fyw.)

¹¹ Ffynhonnell: FBCA

¹² <https://www.hta.gov.uk/>

amlinellir yn y Ddeddf MD, ac mae ganddo swyddogaeth statudol i roi cyngor ac arweiniad.

Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd yr HTA ei "Guidance on the disposal of pregnancy remains following pregnancy loss or termination"¹³ (a atgynhychir yn **Atodiad B**). Dywed y Canllaw, er nad yw cydsyniad yn ofyniad cyfreithiol o dan y Ddeddf MD ar gyfer gwaredu gweddillion beichiogrwydd, yn ymarferol mae dymuniadau'r fenyw, a'i dealltwriaeth hi o'r opsiynau ar gyfer gwaredu sydd ar gael iddi, o bwys enfawr, a dylid eu parchu a gweithredu arnynt. Mae trafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid wrth baratoi'r ymgynghoriad hwn wedi ategu hyn.

Dywed canllaw'r HTA ar gyfer ysbytai (a chlinigau erthyliad hefyd) y dylai menywod gael ystod o ddewisiadau ar gyfer gwaredu ffetysau llai na 24 wythnos, gan gynnwys amlosgi. Mae'n pwysleisio wrth ymarferwyr meddygol bwysigrwydd cyfathrebu â rhieni am yr hyn fydd yn digwydd er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth sy'n addas ar eu cyfer hwy. Mae'n disgwyl y bydd gan ymarferwyr meddygol wybodaeth am y ddarpariaeth leol ac, os nad yw amlosgfeydd lleol yn gallu derbyn ffetysau llai na 24 wythnos, cyfarwyddyd yr HTA yw y dylai ymarferwyr meddygol fod â gwybodaeth am rai eraill a all gynnig y gwasanaeth hwn iddynt. Mae canllaw'r HTA yn cyfeirio at ganllaw gan yr ICCM¹⁴ a hefyd gan Sands, yr elusen marw-anedig a chyn-geni, sy'n adnoddau defnyddiol.

Ym mis Medi 2015 cyhoeddodd yr ICCM, gyda chymorth Sands, ei "Policy and Guidance for Baby and Infant Funerals"¹⁵. Hefyd, yn 2014 cyhoeddodd Sands ei ganllaw ar gyfer rhieni mewn profedigaeth, "Deciding about a funeral for your baby"¹⁶.

Ar gyfer nyrsys a bydwagedd, mae canllaw Hydref 2015 y Coleg Nyrsio Brenhinol, "Managing the Disposal of Pregnancy Remains"¹⁷.

Arferion cyfredol yng Nghymru a Lloegr

Bydd ysbytai fel arfer yn trefnu amlosgiadau ar gyfer ffetysau llai na 24 wythnos os yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn yr ardal, oni bai bod rhieni'n dymuno gwneud eu trefniadau eu hunain i amlosgi. Wrth drefnu amlosgiad, bydd ysbytai fel arfer yn trefnu (gyda threfnydd angladdau fel arfer) i gludo ffetysau llai na 24 wythnos i amlosgfa, gyda chadarnhad ysgrifenedig gan fydwraig sy'n datgan fod y ffetws yn llai na 24 wythnos a bod y rhieni wedi rhoi caniatâd i amlosgi.

¹³https://www.hta.gov.uk/sites/default/files/Guidance_on_the_disposal_of_pregnancy_remains.pdf

¹⁴ <http://www.iccm-uk.com/iccm/index.php>

¹⁵<http://www.iccm-uk.com/iccm/library/Baby%20and%20Infant%20Funerals%20September%202015.pdf>

¹⁶<https://www.uk-sands.org/sites/default/files/DECIDING%20ABOUT%20A%20FUNERAL%20SINGLE%20PAGE%20LINKED.pdf>

¹⁷http://www.rcn.org.uk/__data/assets/pdf_file/0008/645884/RCNguide_disposal_pregnancy_remains_WEB.pdf

Rydym yn deall bod ysbytai, amlosgfeydd a threfnwyr angladdau'n aml yn llunio cytundeb ffurfiol ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos. Mae gan yr ICCM ffurflen enghreifftiol yn ei ganllaw¹⁸.

Mae canllaw'r ICCM yn cynghori hefyd y dylai trefniadau lleol gael eu rhannu â meddygon teulu a gweithwyr iechyd eraill yn y gymuned, mewn achosion lle mae'r beichiogrwydd yn cael ei golli y tu allan i ysbyty.

Amlosgiadau a rennir

Yn enwedig yn achos colledion yn gynnar iawn yn y beichiogrwydd, gellir cynnig amlosgiad a rennir- h.y. lle mae dau neu fwy o ffetysau llai na 24 wythnos yn cael eu hamlosgi gyda'i gilydd, ond mewn cynwysyddion unigol o fewn cynhwysydd mwy. Mewn achosion o'r fath, gellir cynnal gwasanaeth capel yn yr amlosgfa. Yn dilyn amlosgiad a rennir nid oes modd adnabod y llwch o'r gwahanol gynwysyddion, a byddant fel arfer yn cael eu gwasgaru neu eu claddu mewn man dynodedig yn yr amlosgfa.

Yn achos amlosgiadau a rennir, nid oes gan yr awdurdodau amlosgi na threfnwyr angladdau fanylion personol y ffetysau llai na 24 wythnos, ond maent yn hytrach yn cael cyfeirnod achos gan yr ysbyty. Mae hyn yn galluogi cyfrinachedd i rieni o dan Ddeddf Erthyliadau 1967.

Mae cwestiwn ynglŷn â chod ymarfer ar gyfer amlosgiadau a rennir ym Mhennod8.

Llosgiadau sensitif mewn ysbytai

Mae canllaw'r HTA yn manylu ar losgiadau sensitif ffetysau llai na 24 wythnos. Dywed y dylai'r dull hwn gael ei ddefnyddio'n unig os yw'r fam yn dewis yr opsiwn hwn ac nad yw hi'n dymuno cael unrhyw gysylltiad ar ôl colli'r beichiogrwydd.

Adennill llwch ar ôl amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed

Dywed canllaw'r HTA y dylai gweithwyr iechyd proffesiynol, wrth drafod yr opsiwn i amlosgi, ddweud wrth rieni nad oes modd adennill llwch bob amser ar ôl amlosgi ffetws llai na 24 wythnos a dweud wrthynt fod Sands wedi cynhyrchu canllaw ar y pwnc hwn.

b) Materion cyffredinol yn ymwneud â rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos

Mae'r ICC yn argymhell y dylai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos gael ei reoleiddio. Gall rhai o'r argymhellion ar ffetysau llai na 24 wythnos fod yr un mor berthnasol i bob amlosgiad – er enghraifft y dylid cael datganiadau eglur ar yr hyn a ddylai ddigwydd i lwch – a rhoddir sylw i'r rhain mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon. Fodd bynnag, mae argymhellion penodol ar gyfer ffetysau llai na 24 wythnos, a rhoddir sylw i'r rhain yn y bennod hon.

I grynhoi, mae'r ICC yn argymhell gweithdrefnau a ffurflenni cyfatebol ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos ac ar gyfer babanod marw-anedig, babanod genedigaethau byw, plant ac oedolion. Nod ei argymhellion yw gwella prosesau, drwy ddeddfwriaeth a

¹⁸<http://www.iccm-uk.com/iccm/library/Fetal%20Remains%20Policy%20Updated%20Sept2015%20.pdf>

chanllawiau. Ymddengys mai'r bwriad cyffredinol wrth wraidd yr argymhellion yw sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu o'r opsiynau pan fyddant yn gwneud penderfyniad i amlosgi; y gweithredir ar eu dymuniadau; a bod dogfennau a thrywydd archwilio yn gallu dangos hyn.

C21 - A ydych chi'n credu y dylai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos gael eu cynnwys o fewn cwrpas rheoliadau 2008? Rhowch resymau am eich ateb.

C22 - Byddai rheoleiddiad ffetysau llai na 24 wythnos yn cynnwys pob camesgoriad a ffetysau a erthylir¹⁹, o feichiogrwydd cynnar iawn, hyd at 23 wythnos a 6 diwrnod o feichiogrwydd. A ydych chi'n credu y byddai'r un broses o wneud cais a reoleiddir yn briodol ar gyfer pob achos o'r fath? Rhowch resymau am eich ateb.

C23 - Ers cyhoeddi canllaw'r HTA ym mis Mawrth 2015:

- Yn eich profiad chi, a yw nifer y ceisiadau i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos wedi cynyddu / gostwng ? Rhowch resymau am eich ateb.
- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adegau lle na ddilynwyd y canllaw? Os felly, rhowch fanylion.

C24 - Ynghylch dyfarnwyr meddygol amlosgfeydd:

- Yn eich profiad chi, a yw dyfarnwyr meddygol amlosgfeydd yn awr yn edrych ar y ffurflenni ar gyfer ffetysau llai na 24 wythnos, er nad oes ganddynt rôl statudol i wneud hynny?
- Pe bai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn cael ei reoleiddio, pa effaith (gan gynnwys goblygiadau cost) fyddai hyn yn ei gael ar lwyth gwaith dyfarnwyr meddygol amlosgfeydd?

C25 - A ydych chi'n credu y byddai rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn cael effaith ar nifer yr amlosgiadau o'r fath? A ydych chi'n rhagweld unrhyw gostau ychwanegol? Os felly, rhowch fanylion am ble fyddai'r costau'n codi, a faint ydych chi'n feddwl fyddai'r costau hynny.

C26 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi] A fyddai rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn golygu y byddai'n rhaid cael offer ychwanegol yn eich amlosgfa o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr amlosgiadau? Os felly, rhowch fanylion am yr offer y byddai ei angen a pha gostau cysylltiedig fydddech chi'n eu rhagweld.

c) Ffurflen gais a phrosesau ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos

Roedd yr ICC yn teimlo y byddai ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn sicrhau cysondeb mewn arferion gweithio, a byddai hefyd yn rhoi amlosgiadau

¹⁹Yng Nghymru a Lloegr (a'r Alban) o dan Ddeddf Erthyliaidau 1967 mae erthyliaidau'n gyfreithiol hyd at 24 wythnos o feichiogrwydd, er bod y rhan fwyaf o erthyliaidau'n cael eu cynnal yn llawer cynharach na hyn, hynny yw, cyn 12 wythnos (mewn achosion prin, gellir cynnal erthyliaid yn gyfreithiol ar ôl 24 wythnos).

o'r fath ar yr un seiliau deddfwriaethol â mathau eraill o amlosgiadau. Ar ôl ystyried argymhellion yr ICC rydym yn teimlo y gallai ffurflen gais gynnwys y darpariaethau canlynol:

- Dylai'r ysbyty neu'r rhieni gwblhau'r ffurflen cais i amlosgi (fel sy'n digwydd yn awr).
- Dylai'r ffurflen gynnwys adran lle mae'r ysbyty, os yw'n gwneud y cais, sy'n cadarnhau ei fod wedi trafod yr opsiwn i amlosgi gyda'r rhieni a bod ganddo ganiatâd i fwrw ymlaen.
- Yn achos amlosgiadau unigol, dylai'r ffurflen ddatgan na all fod yn bosibl adennill llwch bob amser; cadarnhau bod y rhieni wedi deall hyn; a chadarnhau beth yr hoffai'r rhieni weld yn digwydd i unrhyw lwch sy'n cael ei adennill.
- Yn achos amlosgiadau a rennir, dylai'r ffurflen ddatgan y bydd unrhyw lwch sy'n cael ei adennill yn cael ei gladdu neu ei wasgaru yn yr amlogfa, a chadarnhau bod y rhieni wedi deall hyn a'u bod yn fodlon â'r trefniadau.
- Dylai'r rhieni lofnodi'r ffurflen gais.

C27- A ydych chi'n credu y dylid cael ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos, ac na ellid bwrw ymlaen i amlosgi hebddi? Rhowch resymau am eich ateb.

C28 - A ydych chi wedi profi / yn ymwybodol o unrhyw broblemau sy'n codi am nad yw'r ffurflenni ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn statudol? Os ydych, rhowch fanylion.

C29 - A ydych chi'n credu, yn achos amlosgiadau sy'n cael eu trefnu gan ysbytai, y dylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos gadarnhau bod y rhieni (neu yn achos amlosgiadau a rennir, rhieni pob un o'r ffetysau) wedi cytuno i'r ysbyty wneud cais i amlosgi?

C30 - A ydych chi'n credu y dylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos ddatgan efallai na fydd yn bosibl adennill llwch ar ôl amlosgi, a chadarnhau bod y rhieni'n deall hyn? Neu a oes ffyrdd eraill / a ffefrir o wneud hyn yn eglur i rieni? Eglurwch eich ateb.

C31 - A ddylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos nodi bod yn rhaid i rieni ddatgan beth ddylai ddigwydd i unrhyw lwch sy'n cael ei adennill?

C32-A ddylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos fod yn wahanol os yw'r rhieni'n dymuno trefnu'r amlosgiad eu hunain, yn hytrach na drwy'r ysbyty?

C33 - Yn eich profiad chi, a oes tystysgrif feddygol yn cyd-fynd â chais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos, sy'n datgan bod y beichiogrwydd wedi'i gollu cyn 24 wythnos o gyfnod beichiogrwydd ac nad oedd yn dangos dim arwyddion o fywyd? A ddylid cael tystysgrif feddygol o'r fath ar gyfer amlosgi a pham?

d) Amlosgiadau yn dilyn colli beichiogrwydd cyn 24 wythnos y tu allan i ysbyty

Bydd rhai ffetysau llai na 24 wythnos yn cael eu colli y tu allan i ysbyty neu leoliad gofal iechyd arall. Os byddai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn cael ei reoleiddio, gallai gwneud cais i amlosgi fod yn anodd mewn rhai achosion, yn enwedig os oedd gofyniad i gael tystysgrif feddygol a oedd yn datgan bod y beichiogrwydd wedi'i golli cyn 24 wythnos ac nad oedd y ffetws yn dangos dim arwyddion o fywyd.

C34 - A oes gennych chi brofiad o amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos lle nad oedd tystysgrif feddygol? Os oes, beth oedd y broses?

C35 - Pe byddai amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos oedyn cael eu rheoleiddio, beth ddylai'r broses o wneud cais fod mewn achosion lle nad oes tystysgrif feddygol weithio?

e) Pwy ddylai wneud y cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos?

Roedd yr ICC yn argymhell yn yr Alban mai dim ond pobl benodol ddylai gael yr hawl i wneud cais i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos. Mabwysiadodd Llywodraeth yr Alban hyn i gynnig mai 'y fenyw sydd wedi colli'r beichiogrwydd ddylai gael y prif hawl i roi cyfarwyddyd i amlosgi. Byddai eraill yn cael yr hawl hwn os nad oedd y fenyw am unrhyw reswm yn alluog i roi cyfarwyddyd o'r fath.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r ffurflen amlosgi, 'Cais i amlosgi baban marw-anedig' (Ffurflen Amlosgi 3) yn gofyn i'r ymgeisydd gadarnhau:

- ai ef/hi yw rhiant y baban, ac, os na, egluro natur y berthynas a pham y mae ef neu hi'n gwneud y cais
- a yw'r ddau riant wedi cael eu hysbysu o'r amlosgiad arfaethedig ac, os nad ydynt, enw'r rhiant na chysylltwyd ag ef neu hi a'r rheswm dros beidio cysylltu
- a yw'r rhiant wedi gwrthwynebu'r amlosgiad arfaethedig

Byddai dyfarnwr meddygol wedyn yn ystyried y ffurflen cyn awdurdodi'r amlosgiad.

C36 - A ydych chi'n teimlo bod yr iaith yn Ffurflen Amlosgi 3, fel y dangosir uchod, yn briodol o ran pwy all wneud cais / cyfarwyddo ysbyty i wneud cais i'r amlogfa i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos? Ynteu a ydych chi'n credu y dylai deddfwriaeth ddiffinio pwy sydd â'r hawl i wneud cais. Eglurwch pam.

f) Bod yn dyst i ffurflen gais

Mae'r ICC yn argymhell, yn ychwanegol at ymgeisydd yn llofnodi'r ffurflen gais i amlosgi, y dylai llofnod yr ymgeisydd gael ei dystio gan unigolyn nad yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd ac nad yw'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer yr amlosgiad. Y nod oedd gwneud yn siŵr y gallai unigolyn heb gysylltiad emosiynol na phroffesiynol â threfniadau'r angladd gydlofnodi'r ffurflen gais i ddatgan bod yr ymgeisydd wedi gwneud penderfyniad ac wedi deall goblygiadau'r penderfyniad hwnnw'n llawn. Roedd rhai ymatebwyr i ymgynghoriad yr

Alban²⁰ yn teimlo nad oedd angen cydlofnodi, a bod hynny'n anymarferol ac y byddai'n achosi mwy o straen i deuluoedd.

C37 - A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol bod ffurflen gais i amlosgi (ar gyfer unrhyw amlosgiad a reoleiddir, boed ar gyfer baban marw-anedig, baban genedigaeth fyw, plentyn neu oedolyn) yn cael ei chydlofnodi gan rywun nad yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd ac nad yw'n gysylltiedig â threfniadau'r angladd? Ynteu a ydych chi'n credu y gallai hyn fod yn anymarferol, yn enwedig efallai ar ôl colli baban yn gynnar yn y beichiogrydd neu erthylad?

g) Cadw cofnodion o amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos

Mae systemau cadw cofnodion mewn ysbytai'n amrywio ledled Cymru a Lloegr. Mae gan amlogfeydd systemau lleol i sicrhau bod cysylltiad y gellir ei olrhain rhwng ffetysau llai na 24 wythnos a'u llwch, gan ddefnyddio cyfeirnod unigryw i ddiogelu cyfrinachedd eu rhieni.

Yn achos amlosgiadau a drefnir gan ysbytai, efallai y bydd gan drefnwyr angladdau gongtract ag ysbyty i gludo babanod sydd i gael eu hamlosgi o'r ysbyty i'r amlogfa. Mewn achosion o'r fath nid yw trefnwyr angladdau yn gwybod manylion personol y babanod, ac maent yn cofnodi manylion yr arch yn unig. Rydym yn deall mai manylion personol amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos sy'n cael eu trefnu gan rieni, yn hytrach nag ysbytai, sydd gan drefnwyr angladdau.

C38 - A ddylai fod yn ofynnol cael deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau amlosgi gofnodi amlosgiad pob ffetws llai na 24 wythnos yn eu cofrestrau? Os felly, pa wybodaeth ddylai gael ei chofnodi, gan gadw mewn cof yr awydd i gadw cydbwysedd rhwng yr angen i allu olrhain amlosgiadau a'r angen i ddiogelu cyfrinachedd rhieni mewn rhai achosion?

C39 - Sut ddylai cofrestr awdurdodau amlosgi gysylltu â chofnod yr ysbyty perthnasol? A ddylai'r wybodaeth a gofnodir ar gyfer amlosgiadau a drefnir gan ysbytai fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer amlosgiadau a drefnir gan rieni ac amlosgiadau a rennir ac, os felly, ym mha ffordd?

C40 - A fyddai gofyniad o'r fath i gadw cofnodion yn faich newydd ar awdurdodau amlosgi? Os byddai unrhyw oblygiadau cost, rhowch fanylion ym mhle fyddai'r costau'n codi, a faint ydych chi'n rhagweld fyddai maint y costau hynny.

²⁰https://consult.scotland.gov.uk/burial-cremation/consultation-on-a-proposed-bill-relating-to-burial/consult_view

12. Cofebau

Argymhelliad Emstrey

Dim

Argymhelliad yr ICC

56 *Dylai Llywodraeth yr Alban ffurfio gweithgor a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr rhieni sydd wedi'u heffeithio a grwpiau profedigaeth i ystyried a ddylid cael cofeb genedlaethol i goffau'r babanod y cafodd eu llwch ei gam-drin neu ei gamreoli ac, os felly, beth ddylai ffurf y gofeb fod.*

55 *Os ydynt yn cael eu gwahodd gan rieni a effeithiwyd, dylai cynghorau / awdurdodau lleol hwyluso trafodaeth ar gyfer cofebau lleol.*

Ymateb Llywodraeth yr Alban i argymhellion yr ICC

Dyweddodd Llywodraeth yr Alban fod argymhelliad 55 yn fater i awdurdodau lleol ond ei bod yn cefnogi'r argymhelliad ac y byddai disgwyl i bob awdurdod lleol gefnogi ceisiadau am gofebau lleol. Byddai argymhelliad 56 yn cael ei sefydlu fel is-grŵp o'r Pwyllgor Cenedlaethol a gynigiwyd yn argymhelliad 57. Byddai Llywodraeth yr Alban yn cefnogi datblygu a chynnal a chadw unrhyw gofeb genedlaethol.

Sylwebaeth

Mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi angen rhieni i gofio'r babanod nad oedd eu llwch wedi cael ei adennill, ac rydym yn parhau i gefnogi'r syniad o gofebau. Rydym o'r farn y byddai fwyaf priodol pe byddai cofebau'n cael eu darparu'n lleol, ac y gwneid y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau prin drwy gyflwyno mesurau a fyddai'n gwneud yn siŵr na fyddai'r methiannau a nodwyd yn adroddiadau Emstrey a'r ICC yn digwydd eto.

13. Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2011) yn ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi "sylw dyladwy" i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a / neu erledigaeth; i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i feithrin cysylltiadau da rhwng rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (h.y. oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd) a rhai nad ydynt.

Fel arfer nid yw Mwslemiaid, yr Iddewon a phobl o'r ffydd Bahá'í yn amlosgi eu hanwyliaid, ond amlosgi yw'r arfer cyffredin ymhlith Sikhiaid a Hindŵiaid, Bwdhyddion, Zoroastriaid a Jainiaid, ac mae nifer o Gristnogion yn dewis amlosgi hefyd. Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cynnal adolygiad ar wahân i ganfod barn grwpiau ffydd ac aelodau eraill y gymuned ar gyfleusterau a darpariaethau amlosgfeydd.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn y byddai'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith andwyol ar rai â nodweddion gwarchoddedig.

C41 - A ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y ddogfen hon a fyddai'n cael effaith anghymesur ar rai â nodwedd warchoddedig? Os felly, rhowch fanylion.

14. Y Prawf teuluol

Cyflwynwyd y Prawf Teuluol ym mis Awst 2014. Mae'n ddyletswydd anstatudol ar holl adrannau'r Llywodraeth sy'n cyflwyno polisi newydd i ystyried effaith eu cynigion ar fywyd teuluol. Mae'r prawf yn cael ei rannu'n pum cwestiwn sydd â'r nod o ganfod a fyddai'r polisi newydd yn cael effaith ar natur teuluoedd; teuluoedd sy'n mynd drwy newidiadau allweddol h.y. profedigaeth, dod yn rhieni, cyfrifoldebau gofal newydd; amddiffyn oedolion i wneud yn siŵr eu bod yn gallu chwarae rôl lawn mewn bywyd teuluol a sicrhau nad yw teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu neu sy'n gwahanu o dan anfantis o ganlyniad i'r polisi.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn y byddai'r cynigion yn y ddogfen hon yn cael effaith andwyol ar fywyd teuluol – yn wir eu bwriad yw cael effaith gwbl groes.

C42 - A ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y ddogfen hon yn cael effaith andwyol ar fywyd teuluol? Os ydych, rhowch fanylion.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn y papur ymgynghori hwn.

C1 - A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol ynghylch y broses amlosgi, neu ynghylch rheoliadau 2008? Os felly rhowch fanylion.

C2 - A ydych chi'n cytuno y dylai 'llwch' gael ei ddiffinio fel 'yr unig beth sy'n weddill yn yr amlogwr ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu allan unrhyw fetel'? Os nad ydych, eglurwch pam.

C3 - A ydych chi'n credu y byddai'r diffiniad hwn o lwch yn arwain at unrhyw newid yn arferion gweithio amlogfeydd? Pam / pam ddim?

C4 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi] A yw eich offer amlosgi chi'n gallu adennill cymaint o lwch â phosibl (er enghraifft, defnyddio plât i gadw'r llwch pan fo hynny'n ymarferol, ac yn cadw amodau gweithredol a fydd yn lleihau faint o'r llwch a gollir yn ystod y broses amlosgi)? Os nad ydych, pa newidiadau fyddai eu hangen eu gwneud i gynyddu faint o lwch a ellir ei adennill? Os byddai unrhyw oblygiadau cost rhowch fanylion am y costau, a faint y byddech yn ei ragweld fyddai maint y costau hynny.

C5 - A ydych chi'n credu na ddylai amlosgiad fynd yn ei flaen oni bai bod yr ymgeisydd wedi datgan beth ddylai ddigwydd i'r llwch? A fyddech cystal ag esbonio eich ateb, gan gynnwys unrhyw effeithiau negyddol a/neu effaith o ran cost rydych yn credu y gallai fod.

C6 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi a threfnwyr angladdau] Ym mha ganran o amlosgiadau unigol nad yw'r llwch yn cael ei gasglu? Beth yw'r rheswm am hyn a beth fyddwch chi'n wneud os na chesglir y llwch? A oes gan eich awdurdod amlosgi / cwmni weithdrefn ffurfiol?

C7 - A ydych chi'n credu y dylai'r ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi yn rheoliadau 2008 gael ei diwygio i gynnwys opsiynau ar gyfer unrhyw lwch sy'n cael ei adennill, ynteu a ydych chi'n credu bod y prosesau anstatudol presennol (wedi'u cyfuno â dyletswydd statudol yr awdurdod amlosgi i gofnodi yn ei gofrestr sut y gwaredir ar lwch) yn ddigonol?

C8 - A ydych chi'n credu, ar ôl cofnodi casglu'r llwch neu ei leoliad yn y gofrestr, y dylai awdurdod amlosgi orfod anfon copi o'r cofnod yn y gofrestr at yr ymgeisydd? Pam / pam ddim?

C9 - A ydych chi'n credu bod y broses ar gyfer delio â llwch heb ei gasglu'n briodol? Os felly am ba hyd ddylai trefnwyr angladdau ac wedyn amlogfeydd orfod cadw llwch o'r fath?

C10 - A ydych chi'n credu y dylai'r ffurflen gais am amlosgiad ddatgan, er y gwneir pob ymdrech i adennill llwch, ar achlysuron prin, mae'n bosibl na ellir adennill llwch? Ynteu a ydych chi'n credu y gallai hyn achosi braw diangen i fwyafrif yr ymgeiswyr, lle mae llwch ar gael? Os ydych yn credu mai'r olaf sy'n berthnasol beth ydych chi'n feddwl fyddai'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r posibilrwydd nad oes llwch?

C11 - Os na ellir adennill llwch, a ddylai fod gofyniad ar yr awdurdod amlosgi i gynghori'r ymgeisydd o hyn a'r rheswm; a chofnodi hyn yn ei gofrestr?

C12 - A ydych chi'n credu ei bod yn ddigon i awdurdod amlosgi i gadw cofnodion a ffurflenni sy'n gysylltiedig â chladdu ac amlosgi am 15 mlynedd (fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd)? Os ydych chi'n credu bod 15 mlynedd yn amhriodol, am ba mor hir ddylid cadw cofnodion, a beth fyddai'r buddiannau / costau i awdurdodau amlosgi? Os byddai unrhyw oblygiadau cost rhwch fanylion am ble byddai'r costau'n codi, a faint ydych chi'n rhagweld fyddai'r gost.

C13 - A oes gennych chi unrhyw enghreifftiau o arferion gorau o ran cadw cofnodion, yn electronig neu fel copi caled, yr ydych chi'n teimlo a fyddai'n fuddiol i'w rhannu ag awdurdodau amlosgi eraill?

C14 - A ydych chi'n credu mai penodi arolygwr fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gweithio a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd? Os felly, byddai'n fuddiol i glywed eich barn ar:

- yr hyn rydych yn meddwl dylai rôl arolygydd gynnwys - er enghraifft, a ddylai efelychu cylch gwaith presennol arolygydd yr Alban fel y'i disgrifiwyd uchod ynteu a ddylid diddymu rhai o'r cyfrifoldebau hyn neu gynnwys cyfrifoldebau eraill ac, os felly, pam?
- pa mor aml ydych chi'n credu dylai amlosgfeydd gael eu harolygu?
- ym mha ffordd a pha mor aml ydych chi'n credu y dylai'r arolygydd adrodd i Weinidogion?
- a fyddai rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da a drwg awdurdodau amlosgi'n ffordd effeithiol o godi safonau?
- a ydych chi'n credu y dylai cylch gwaith yr arolygydd gynnwys delio â chwynion?
- a ydych chi'n teimlo y dylai cylch gwaith yr arolygydd gael ei ymestyn i gynnwys y diwydiant angladdau?
- sut ydych chi'n credu dylai arolygydd gael ei ariannu?
- sut ydych chi'n credu dylai statws annibynnol yr arolygydd gael ei warchod?

C15 - Os nad ydych chi'n teimlo mai arolygydd annibynnol fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gweithio a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd, pa ddull arall ydych chi'n feddwl a all fod ei angen i wella safonau, a sut ellid ei weithredu?

C16 - A ddylai nodau ac amcanion y gweithgor fod yn debyg i rai Pwyllgor Cenedlaethol yr Alban? A ddylid ychwanegu, neu hepgor, unrhyw beth?

C17 - A ddylid cael gofyniad ar gyfer achredu, ac, os felly, a ddylai hwn gael ei amlinellu mewn Cod Ymarfer neu mewn deddfwriaeth? Rhwch resymau dros eich ymateb.

C18 - I helpu'r gwaith ar God Ymarfer, byddwn yn falch o glywed barn ar y cwestiynau canlynol:

- Gan gymryd Cod Ymarfer yr Alban fel man cychwyn, pa newidiadau, os o gwbl, a all fod angen eu gwneud yng nghyd-destun Cymru a Lloegr – a pham?
- A ddylid cael codau ar wahân ar gyfer amlosgi babanod ac ar gyfer amlosgi'n fwy cyffredinol – ac, os felly, pam?
- A ddylai'r cod(au) ymgorffori'r Cod Ymarfer technegol a argymhellwyd yn adroddiad Emstrey (gweler Pennod 9 (arferion gweithio awdurdodau amlosgi ar adennill llwch) am ragor o fanylion) ynteu a ddylai hyn gael ei ddatblygu ar wahân?
- A ddylai'r Cod Ymarfer (neu god ar wahân ar amlosgi babanod) ymgorffori'r cod ar amlosgi a rennir a argymhellwyd yn adroddiad yr ICC (gweler Pennod 11 am ragor ar amlosgiadau a rennir) ynteu a ddylai hyn gael ei ddatblygu ar wahân?

C19 - Rydym felly'n awyddus i glywed barn ar y canlynol:

- A ddylai'r Cod(au) Ymarfer gael ei adolygu'n flynyddol, ynteu'n llai aml?
- Sut ddylid monitro cydymffurfiaeth â'r Cod(au)?
- A ydych chi'n credu y dylai methiant i gydymffurfio â'r Cod(au) Ymarfer gael ei gyhoeddi?

C20 - A oes gennych chi enghreifftiau o arferion da o roi gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth? Os felly, rhowch fanylion.

C21 - A ydych chi'n credu y dylai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos gael eu cynnwys o fewn cwmpas rheoliadau 2008? Rhowch resymau am eich ateb.

C22 - Byddai rheoleiddiad ffetysau llai na 24 wythnos yn cynnwys pob camesgoriad a ffetysau a erthylir, o feichiogrwydd cynnar iawn, hyd at 23 wythnos a 6 diwrnod o feichiogrwydd. A ydych chi'n credu y byddai'r un broses o wneud cais a reoleiddir yn briodol ar gyfer pob achos o'r fath? Rhowch resymau am eich ateb.

C23 - Ers cyhoeddi canllaw'r HTA ym mis Mawrth 2015:

- Yn eich profiad chi, a yw nifer y ceisiadau i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos wedi cynyddu / gostwng? Rhowch resymau am eich ateb.
- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adegau lle na ddilynwyd y canllaw? Os felly, rhowch fanylion.

C24 Ynghylch dyfarnwyr meddygol amlosgfeydd:

- Yn eich profiad chi, a yw dyfarnwyr meddygol amlosgfeydd yn awr yn edrych ar y ffurflenni ar gyfer ffetysau llai na 24 wythnos, er nad oes ganddynt rôl statudol i wneud hynny?

- **Pe bai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn cael ei reoleiddio, pa effaith (gan gynnwys goblygiadau cost) fyddai hyn yn ei gael ar lwyth gwaith dyfarnwyr meddygol amlosgfeydd?**

C25 - A ydych chi'n credu y byddai rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn cael effaith ar nifer yr amlosgiadau o'r fath? A ydych chi'n rhagweld unrhyw gostau ychwanegol? Os felly, rhowch fanylion am ble fyddai'r costau'n codi, a faint ydych chi'n feddwl fyddai'r costau hynny.

C26 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi] A fyddai rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn golygu y byddai'n rhaid cael offer ychwanegol yn eich amlogfa o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr amlosgiadau? Os felly, rhowch fanylion am yr offer y byddai ei angen a pha gostau cysylltiedig fyddech chi'n eu rhagweld.

C27 - A ydych chi'n credu y dylid cael ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos, ac na ellid bwrw ymlaen i amlosgi hebddi? Rhowch resymau am eich ateb.

C28 - A ydych chi wedi profi / yn ymwybodol o unrhyw broblemau sy'n codi am nad yw'r ffurflenni ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos yn statudol? Os ydych, rhowch fanylion.

C29 - A ydych chi'n credu, yn achos amlosgiadau sy'n cael eu trefnu gan ysbytai, y dylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos gadarnhau bod y rhieni (neu yn achos amlosgiadau a rennir, rhieni pob un o'r ffetysau) wedi cytuno i'r ysbyty wneud cais i amlosgi?

C30 - A ydych chi'n credu y dylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos ddatgan efallai na fydd yn bosibl adennill llwch ar ôl amlosgi, a chadarnhau bod y rhieni'n deall hyn? Neu a oes ffyrdd eraill / a ffefrir o wneud hyn yn eglur i rieni? Eglurwch eich ateb.

C31 - A ddylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos nodi bod yn rhaid i rieni ddatgan beth ddylai ddigwydd i unrhyw lwch sy'n cael ei adennill?

C32 - A ddylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos fod yn wahanol os yw'r rhieni'n dymuno trefnu'r amlosgiad eu hunain, yn hytrach na drwy'r ysbyty?

C33 - Yn eich profiad chi, a oes tystysgrif feddygol yn cyd-fynd â chais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos, sy'n datgan bod y beichiogrwydd wedi'i gollu cyn 24 wythnos o gyfnod beichiogrwydd ac nad oedd yn dangos dim arwyddion o fywyd? A ddylid cael tystysgrif feddygol o'r fath ar gyfer amlosgi a pham?

C34 - A oes gennych chi brofiad o amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos lle nad oedd tystysgrif feddygol? Os oes, beth oedd y broses?

C35 - Pe byddai amlosgiadau ffetysau llai na 24 wythnos yn cael eu rheoleiddio, beth ddylai'r broses o wneud cais fod mewn achosion lle nad oes tystysgrif feddygol weithio?

C36 - A ydych chi'n teimlo bod yr iaith yn Ffurflen Amlosgi 3, fel y dangosir uchod, yn briodol o ran pwy all wneud cais / cyfarwyddo ysbyty i wneud cais i'r amlogfa i

amlosgi ffetws llai na 24 wythnos? Ynteu a ydych chi'n credu y dylai deddfwriaeth ddiffinio pwy sydd â'r hawl i wneud cais. Eglurwch pam.

C37 - A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol bod ffurflen gais i amlosgi (ar gyfer unrhyw amlosgiad a reoleiddir, boed ar gyfer baban marw-anedig, baban genedigaeth fyw, plentyn neu oedolyn) yn cael ei chydlofnodi gan rywun nad yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd ac nad yw'n gysylltiedig â threfniadau'r angladd? Ynteu a ydych chi'n credu y gallai hyn fod yn anymarferol, yn enwedig efallai ar ôl colli baban yn gynnar yn y beichiogrwydd neu erthylad?

C38 - A ddylai fod yn ofynnol cael deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau amlosgi gofnodi amlosgiad pob ffetws llai na 24 wythnos yn eu cofrestrau? Os felly, pa wybodaeth ddylai gael ei chofnodi, gan gadw mewn cof yr awydd i gadw cydbwysedd rhwng yr angen i allu olrhain amlosgiadau a'r angen i ddiogelu cyfrinachedd rhieni mewn rhai achosion?

C39 - Sut ddylai cofrestr awdurdodau amlosgi gysylltu â chofnod yr ysbyty perthnasol? A ddylai'r wybodaeth a gofnodir ar gyfer amlosgiadau a drefnir gan ysbytai fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer amlosgiadau a drefnir gan rieni ac amlosgiadau a rennir ac, os felly, ym mha ffordd?

C40 - A fyddai gofyniad o'r fath i gadw cofnodion yn faich newydd ar awdurdodau amlosgi? Os byddai unrhyw oblygiadau cost, rhowch fanylion ym mhle fyddai'r costau'n codi, a faint ydych chi'n rhagweld fyddai maint y costau hynny.

C41 - A ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y ddogfen hon a fyddai'n cael effaith anghymesur ar rai â nodwedd warchoddedig? Os felly, rhowch fanylion.

C42 - A ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y ddogfen hon yn cael effaith andwyol ar fywyd teuluol? Os ydych, rhowch fanylion.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Atodiad A

AMLOSGI BABANOD YN YR ALBAN – COD YMARFER 2015²¹

1. Rhaid trin y baban a fu farw, ei deulu a'i ffrindiau â pharch, urddas a sensitifrwydd bob amser.
2. Rhaid i'r egwyddor dewis-ar-sail-gwybodaeth fod yn berthnasol i'r holl ddogfennau a thrafodaethau gwneud-penderfyniadau. Rhaid bod yn dryloyw o ran y dewisiadau eraill a'r costau perthnasol, a bod yn eglur ynghylch pwy all ddal pwerau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.
3. Cyfathrebu â, a rhyddhau gwybodaeth i deulu a ffrindiau'r ymadawedig yn gyson ar draws yr holl gyrff a sefydliadau sydd ynghlwm.
4. Rhaid rhoi amser i'r perthynas agosaf gael pwysu a mesur ac, os oes angen, newid eu penderfyniadau cychwynnol.
5. Rhaid darparu copi o unrhyw ddogfennau y mae'r perthynas agosaf wedi'u llofnodi.
6. Diffinnir 'Llwch' fel "popeth sydd ar ôl yn yr amloggfa ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl cael gwared ar unrhyw fetel", ni waeth beth yw'r cyfansoddiad.
7. Rhaid i bob corff a sefydliad sy'n ymwneud ag amlosgi babanod lynu wrth yr egwyddor o geisio adfer cymaint â phosibl o'r llwch wrth gytuno ar gontractau, ac wrth drefnu a/neu gynnal amlosgiad baban.
8. Dylid nodi'r trefniadau sy'n ymwneud ag unrhyw amlosgiad baban a drefnwyd gan ysbyty mewn contract / i'w gytuno'n ysgrifenedig rhwng yr NHS, y trefnydd angladdau, yr awdurdod amlosgi a/neu'r awdurdod claddu, fel y bo'n berthnasol.
9. Rhaid i bob corff a sefydliad sy'n ymwneud ag amlosgi babanod adolygu eu gweithdrefnau a'u polisiâu eu hunain yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal yr arfer gorau.
10. Rhaid i bob corff a sefydliad sy'n ymwneud ag amlosgi babanod rannu a dysgu o arfer gorau amlasiantaethol a thraws-gwlad.
11. Rhaid i'r holl staff perthnasol gwblhau'n llwyddiannus yr hyfforddiant perthnasol sydd ar gael cyn gallu trafod, trefnu neu gynnal amlosgiadau babanod.
12. Rhaid i gofnodion fod yn gywir, yn glir, ac yn hygyrch a dylid eu cynnal a'u cadw'n electronig lle bynnag y bo'n bosibl.
13. Rhaid i bob corff a sefydliad sy'n ymwneud ag amlosgi babanod ganiatáu a chynorthwyo yn y broses reolaidd o arolygu eu hadeiladau, eu personél, eu polisiâu, eu gweithdrefnau a/neu eu cofnodion ayb. gan yr unigolion neu'r cyrff a ddynodwyd mewn statud at y diben hwn.

²¹<http://www.gov.scot/Resource/0047/00478003.pdf>

14. Rhaid i bob sefydliad sy'n ymwneud ag amlosgi babanod, yn ogystal â'u holl bolisiâu, codau ymarfer, canllawiau, gweithdrefnau a phrosesau presennol a newydd, sicrhau eu bod yn glynu wrth y Cod Ymarfer cenedlaethol hwn, yn cynnwys ei Ganllawiau Atodol ac unrhyw Nodiadau Esboniadol cysylltiedig.

15. Rhaid i bob sefydliad sy'n ymwneud ag amlosgi babanod sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r gyfraith yn yr Alban.

Caiff y Cod hwn ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cenedlaethol Ar Amlosgi Babanod

<http://www.scotland.gov.uk/Topics/Health/Policy/BurialsCremation/NCIC>

Atodiad B

YR AWDURDOD MEINWEOEDD DYNOL MAWRTH 2015 CANLLAWIAU AR WAREDU GWEDDILLION BEICHOGRWYDD YN DILYN COLLI NEU DERFYNU BEICHOGRWYDD²²

Cyflwyniad

1. Dylai'r canllawiau hyn ddarparu gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu gwaredu gweddillion beichiogrwydd o ganlyniad i gollu beichiogrwydd neu derfynu beichiogrwydd mewn lleoliad clinigol, yn cynnwys ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol a chlinigau erthylu. Mae'n ganlyniad i ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid allweddol (gweler Atodiad 1). Cwmpas daeryddol y canllawiau yw Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

2. Mae'r term 'gweddillion beichiogrwydd' yn cael ei ddefnyddio drwy'r ddogfen mewn perthynas â phob math o golledion beichiogrwydd, er enghraifft, o ganlyniad i feichiogrwydd ectopig, comesgoriad neu farwolaeth y ffetws yn y groth; yn ogystal mae'n berthnasol i derfyniadau beichiogrwydd nad yw'n fwy na'r 24ain wythnos o feichiogrwydd²³.

3. Nid yw'r canllawiau yn berthnasol i enedigaethau marw (babanod sydd wedi cael eu geni'n farw ar ôl y 24ain wythnos o feichiogrwydd) a marwolaethau newydd-anedig (gweler paragraffau 34-37). Nid yw'n berthnasol ychwaith i waredu embryonau a gafodd eu creu *in vitro* (ar gyfer triniaeth ffrwythlondeb neu ymchwil embryonau); mae'r rhain yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Ddynol (HFEA).

4. Nid yw Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf MD) yn gwahaniaethu rhwng gwaredu gweddillion beichiogrwydd a chael gwared â meinwe o unigolyn sy'n fyw; gwelir gweddillion beichiogrwydd fel meinwe'r fenyw. Er, o dan Ddeddf MD, nid oes angen caniatâd ar gyfer gwaredu gweddillion beichiogrwydd, mae natur arbennig o sensitif y meinwe hwn yn golygu bod dymuniadau'r fenyw²⁴, a'i dealltwriaeth hi o'r dewisiadau sydd ar gael iddi, yn hollbwysig a dylid eu parchu a'u gweithredu.

5. Mae'r canllawiau yn amlinellu'r safon sylfaenol a ddisgwylir ar gyfer gwaredu meinwe yn dilyn colli beichiogrwydd neu derfynu beichiogrwydd, sef: amlosgi, claddu neu losgi mewn rhai amgylchiadau. Dylai losgi ddigwydd pan mae'r fenyw yn gwneud y dewis hwn yn unig, neu le nad yw hi eisïau bod ynghlwm â'r penderfyniad, neu le nad yw hi'n datgan barn o fewn yr amserlen ddatganedig (gweler paragraff 19), a bod yr ysbyty yn ystyried mai hwn yw'r dull mwyaf priodol o waredu. Dylai ysbytai, nad ydyn nhw'n cynnig llosgi fel dewis a'u bod yn amlosgi neu'n claddu holl weddillion beichiogrwydd fel mater o arfer,

²²https://www.hta.gov.uk/sites/default/files/Guidance_on_the_disposal_of_pregnancy_remains.pdf

²³ Fel y manylir yn adran 1(1)(a) o Deddf Erthylu 1967. Mae terfyniadau hwyr sy'n fwy na 24 wythnos o'r cyfnod cario yn destun anghenion Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, a rhaid eu cofrestru fel genedigaethau marw.

²⁴ Drwy'r canllawiau, rydym yn cyfeirio at 'y fenyw'; fodd bynnag, dylid ystyried y gall fenyw ddewis dirprwyo'r penderfyniad i'w phartner, aelod o'i theulu neu ffrind.

ystyried a yw eu polisi yn cyfyngu ar y dewisiadau a roddir i fenywod a sut y bydden nhw'n ymateb petai llosgi fyddai dewis benyw ar gyfer gwaredu ei gweddillion beichiogrwydd.

6. Mae'r canllawiau yn gyfartal gymwys ar gyfer ysbytai'r GIG a darparwyr yn y sector annibynnol.

7. Mae canllawiau ar waredu gweddillion beichiogrwydd ar gael o'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn ogystal:http://www.rcn.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/78500/001248.pdf

Pwysigrwydd cyfathrebu a gwybodaeth

8. Ym mhob achos, dylai'r fenyw fod yn ymwybodol bod dewisiadau ar gyfer gwaredu. Dylid rhoi gwybodaeth lafar neu ysgrifenedig iddi hi ynglŷn â'r dewisiadau, rhoi cyfle iddi eu trafod, a'i chefnogi hi mewn modd unigol a sensitif er mwyn sicrhau y gall wneud penderfyniad sy'n gywir iddi hi.

9. Dylai'r wybodaeth sy'n cael ei ddarparu gynnwys esboniad o sut y bydd y gweddillion beichiogrwydd yn cael eu gwaredu os nad yw'r fenyw yn dymuno gwneud penderfyniad a byddai'n well ganddi i'r ysbyty ymdrin â'r mater. Yn ogystal, dylai esbonio pwy i gysylltu ag ef i ofyn am ddewis penodol o waredu a'r amserlen am hyn. Dylid cwrdd ag anghenion personol, crefyddol neu ddiwylliannol mewn perthynas â gwaredu gweddillion beichiogrwydd lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, mewn dysgeidiaeth Islam, mae'n rhaid i'r holl weddillion gael eu claddu.

10. Efallai na fydd rhai menywod yn dymuno gwybod am waredu'r gweddillion beichiogrwydd na chymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â gwaredu, a gallan nhw wrthod y cynnig o wybodaeth ynglŷn â'r dewisiadau posibl. Cyn belled â'u bod wedi cael eu hysbysu bod y wybodaeth ar gael, dylai sefydliadau gydnabod a pharchu dymuniadau'r menywod hynny sy'n dewis peidio ag ymgysylltu yn y mater o waredu.

11. Beth bynnag y mae hi'n ei benderfynu, yn cynnwys a wrthododd hi'r cynnig o wybodaeth a dewis peidio â chymryd rhan yn y penderfyniad, dylid cofnodi hyn ar nodiadau meddygol y fenyw.

12. Ym mha amgylchiadau bynnag, y mae colli neu derfynu beichiogrwydd, yn amlwg yn amser arbennig o sensitif ac emosiynol i fenyw. Mae angen i bolisiau a gweithdrefnau gydnabod a darparu am y ffaith, tra nad yw menyw yn dymuno ymgysylltu mewn trafodaethau ynglŷn â gwaredu gweddillion beichiogrwydd (na gwneud penderfyniad), efallai bydd hi'n newid ei meddwl yn ddiweddarach neu'n gofyn beth oedd y trefniadau. Mae'n bwysig felly i sicrhau yn ogystal â pharchu dymuniadau'r rhai hynny sy'n dewis peidio â chymryd rhan ar yr amser, bod gwaredu'r gweddillion beichiogrwydd yn cael ei wneud fel yr amlinellir yn y canllawiau hyn.

13. Gellir gweld canllawiau manwl ar gyfathrebu gyda menywod ynglŷn â cholli beichiogrwydd gan elusen Genedigaethau marw a marwolaethau newydd-anedig (Sands)[<https://uk-sands.org/resources>].

Datblygu polisi gwaredu

14. Dylai bolisiau gwaredu ysbytai sicrhau bod gweddillion beichiogrwydd yn cael eu trin gyda pharch heb ystyried beth yw amgylchiadau'r golled neu'r terfyniad, a bod menywod yn ymwybodol bod dewisiadau gwaredu ar gael iddyn nhw.

15. Mae'n hanfodol bod y canllawiau a'r ymarfer wrth waredu yn adlewyrchu'r sensitifrwydd sydd ei angen wrth ymdrin â gweddillion beichiogrwydd. Mae anghenion y fenyw o bwysigrwydd mawr iawn wrth ddatblygu polisi gwaredu, a dylid ei ysgrifennu yn y fath fodd fel ei fod yn addas i fenywod sy'n dewis cael mynediad ato.

16. Dylai'r holl staff a ofynnir, neu a ddisgwylir, i ddarparu gwybodaeth am waredu fod yn ymwybodol o'r polisi a bod yn barod i'w drafod. Dylen nhw fod yn sensitif i werthoedd a chredoau amrediad eang o ddiwylliannau a chrefyddau, yn arbennig felly, rhai o'u cymuned leol, wrth gofio bob amser bod pob penderfyniad yn arbennig i'r fenyw unigol. Dylai'r staff sy'n rhan o'r trafodaethau hyn gael gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth am agweddau ymarferol, pob ffurf o waredu er mwyn gallu cyfathrebu'r wybodaeth hon yn gywir i'r fenyw. Gallai hyn gynnwys y tebygolrwydd o adfer y gweddillion yn dilyn amlosgi, neu efallai'r cyfle am ryw fath o goffáu os dewisir claddu.

17. Dylai bod hyfforddiant ar gael i staff er mwyn eu darparu i gefnogi'r fenyw yn y ffordd orau mewn modd sensitif a gofalgar. Oherwydd natur sensitif iawn gwaredu gweddillion beichiogrwydd, dylai'r holl staff gael mynediad at addysg ynglŷn â'r broses a chael eu hatgoffa am fynediad at wasanaethau cynghori os ydyn nhw'n teimlo'r angen am gefnogaeth eu hunain.

18. Dylai'r polisi a'r gweithdrefnau cefnogi sicrhau bod gwaredu gweddillion beichiogrwydd yn aros yn unol â dymuniadau'r fenyw ac yn digwydd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddi hi roi gwybod am ei phenderfyniad.

19. Lle nad yw'r fenyw wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â'r gwarediad mewn cyfnod penodol o amser ers colli neu derfynu'r beichiogrwydd (ac ni ddylai fod yn fwy na 12 wythnos), dylai'r ysbyty sy'n gyfrifol am ofalu am y fenyw wneud trefniadau gwaredu yn unol â'r canllawiau hyn. Dylid gwneud y fenyw yn ymwybodol o'r cyfnod amser pan roddir gwybodaeth am ddewisiadau gwaredu yn y lle cyntaf.

20. Dylai'r ysbyty gofnodi sut a pha bryd y gwaredwyd y gweddillion, yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, enw'r fynwent neu'r amlosgfa er mwyn darparu'r wybodaeth lawn yn ddiweddarach os gofynnir amdano.

Dewisiadau Gwaredu

21. Dylai amlosgi a chladdu bob amser fod yn ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer gwaredu gweddillion beichiogrwydd, *os oes meinwe ffetysol gweladwy ai peidio*. Gall llosgi sensitif, ar wahân i wastraff clinigol, gael ei ddefnyddio lle mae'r fenyw yn dewis hyn neu os nad yw hi'n dymuno bod yn rhan o'r penderfyniad ac mae'r sefydliad yn ystyried hyn fel y dull mwyaf priodol o waredu.

Amlosgi

22. Er nad yw wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008, gall weddillion beichiogrwydd gael eu hamlosgi ac mae'r rhan fwyaf o amlosgfeydd yn fodlon darparu'r gwasanaeth hwn. Bydd angen i sefydliadau drafod gydag amlosgfeydd lleol er mwyn cytuno ar y lefel o wasanaeth sydd i'w ddarparu. Os nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn lleol, dylen nhw ystyried trafod gyda darparwyr gwasanaethau eraill ymhellach i ffwrdd. Mae polisi a chanllawiau'r ICCM '*The Sensitive Disposal of Fetal Remains*' yn cynnwys cytundeb drafft a all fod yn ddefnyddiol i sefydliadau [<http://www.iccm-uk.com/iccm/index.php>].

23. Os nad yw'r sefydliad yn gallu cael mynediad at wasanaethau amlogfa, dylen nhw egluro i'r fenyw na fydden nhw'n gallu trefnu i'r gweddillion beichiogrwydd gael eu hamlosgi a rhoi'r cyfle iddi hi wneud ei threfniadau ei hun neu nodi amlogfa lle y gellir anfon y gweddillion ar ei rhan.

24. Lle fydd y gweddillion beichiogrwydd yn cael eu hamlosgi ochr yn ochr â gweddillion eraill, dylid hysbysu'r fenyw, ac os oes angen, dylid ei gwneud yn ymwybodol o'r dewisiadau amgen sydd ar gael. Fel lleiafswm, dylai'r gweddillion fod mewn cynwysyddion unigol wedi'u selio, wedi'u casglu gyda'i gilydd mewn cynhwysydd mwy wedi'i selio. Er mwyn cynnal trywydd archwilio, mewn unrhyw gyfathrebu gyda'r amlogfa ynglŷn ag amlosgiad sydd wedi'i rannu, dylai ysbytai adnabod pob set o weddillion beichiogrwydd naill ai gydag enw'r fenyw neu rif cyfeirnod/achos unigryw os oes angen cynnal cyfrinachedd. Ni ddylid rhannu manylion cleifion heb ganiatâd penodol y fenyw.

25. Wrth drafod y dewis o amlosgi gweddillion beichiogrwydd, dylid dweud wrth fenywod nad yw llwch bob amser yn cael ei adfer mewn amlosgiad unigol. Mae Sands wedi cynhyrchu canllawiau ar y pwnc hwn, a gellir cael ato drwy fynd i'w gwefan.

Claddu

26. Yn ogystal, gall gweddillion beichiogrwydd gael eu claddu. Dylai sefydliadau ymgynghori â'r awdurdodau claddu lleol er mwyn sefydlu pa lefel o wasanaeth sydd ar gael ac os nad yw'r gwasanaeth ar gael yn lleol, dylen nhw ystyried cysylltu â darparwyr gwasanaethau ymhellach i ffwrdd.

27. Lle mae'r gweddillion beichiogrwydd yn cael eu claddu yn yr un gladdfa â setiau eraill o weddillion, dylid hysbysu'r fenyw, ac os oes angen, ei gwneud yn ymwybodol o ba ddewisiadau amgen sy'n bodoli. Dylai'r gweddillion o leiaf fod mewn arch neu gynwysyddion unigol, wedi'u casglu ynghyd mewn cynhwysydd mwy ac wedi cael ei selio. Er mwyn cynnal trywydd archwilio, mewn unrhyw gyfathrebu i nodi pob set o weddillion gydag un ai enw'r fenyw neu gyfeirnod/rhif achos unigryw os oes angen cynnal cyfrinachedd. Ni ddylid rhannu manylion y claf heb ganiatâd penodol y fenyw.

28. Wrth drafod y dewis o gladdu ar y cyd, dylid hysbysu'r fenyw na fydd unrhyw goffáu unigol i nodi lleoliad y claddu.

Llosgi sensitif

29. Gellir defnyddio llosgi lle mae'r fenyw yn gwneud y dewis hwn neu os nad yw hi'n dymuno bod yn rhan o'r penderfyniad, a bod yn well ganddi hi i'r ysbyty wneud y trefniadau, neu os nad yw'n gwneud penderfyniad yn yr amser penodol ac mae'r ysbyty wedi gwneud penderfyniad ystyriol mai hyn yw'r dull mwyaf priodol o waredu.

30. Er bod llosgi ac amlosgi fel ei gilydd yn golygu bod gweddillion beichiogrwydd yn cael eu llosgi, nid ydyn nhw'r un fath. Mae'n bwysig bod y fenyw yn deall yr hyn a olygir wrth losgi a'r gwahaniaeth rhwng hyn ac amlosgi, er mwyn iddi wneud dewis deallus. Dylai'r staff sy'n rhan o'r cyfathrebu gyda'r fenyw gael gwybodaeth fanwl am y prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu esbonio'r wybodaeth hon yn gywir.

31. Dylai gweddillion beichiogrwydd gael eu trin yn wahanol i wastraff clinigol. Dylid eu pecynnu a'u storio ar wahân mewn cynwysyddion addas cyn eu gwaredu, a'u llosgi ar wahân i wastraff clinigol. Efallai y byddai sefydliadau'n dymuno ystyried trefniadau ychwanegol dewisol y gallan nhw eu gwneud er mwyn gwaredu'r meinwe yn sensitif, er enghraifft, drwy ymgysylltu â chaplan yr ysbyty neu arweinwyr ysbrydol lleol. Fodd

bynag, dymuniadau'r fenyw sy'n hollbwysig a phan mae menyw wedi dewis llosgi yn benodol oherwydd nad yw hi'n dymuno i'w gweddillion beichiogrwydd dderbyn unrhyw statws arbennig, dylid parchu hyn.

32. Lle mae llosgi yw'r dull gwaredu sy'n cael ei ddefnyddio, y mae'n rhaid ei wneud mor sensitif ag sy'n bosibl. Dylid cofnodi dyddiad y casglu a lleoliad y llosgi.

Dychwelyd y gweddillion beichiogrwydd i'r fenyw

33. Gall rhai menywod ddymuno gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer gwaredu eu gweddillion beichiogrwydd. Mae'n briodol yn yr achosion hyn i'r ysbyty gynnig cyngor a chymorth, er y bydd unrhyw gostau fel arfer yn gyfrifoldeb i'r fenyw. Os yw benyw yn gofyn i'r gweddillion gael eu dychwelyd iddi hi, dylid eu sortio mewn cynhwysydd priodol mewn lle diogel a'u bod ar gael i'w casglu gan y fenyw neu'i chynrychiolydd. Dylid cofnodi'r penderfyniad, a dyddiad y casglu, ar nodiadau meddygol y fenyw a dylid rhoi cadarnhad ysgrifenedig iddi hi fod ganddi'r hawl i gymryd y gweddillion er mwyn gwneud ei threfniadau ei hun.

Genedigaethau marw a marwolaethau newydd-anedig

34. Mae babanod sy'n cael eu geni'n farw ar ôl y 24ain wythnos o feichiogrwydd yn cael eu diffinio'n gyfreithiol fel genedigaethau marw ac mae'n rhaid eu cofrestru yn y modd hwn. Mae hyn yn cynnwys terfyniadau hwyr sy'n digwydd yn hwyrach na 24 wythnos yn y cyfnod cario. Mae'n ofynnol drwy gyfraith gyffredin fod babanod marw-anedig yn cael eu claddu neu'u hamlosgi.

35. Mae baban neu ffetws o unrhyw oed yn y cyfnod cario sy'n cael ei eni yn dangos arwyddion bywyd ac yn marw cyn ei fod yn 28 diwrnod oed yn enedigaeth fyw ac yn farwolaeth newydd-anedig. Mae'n ofynnol drwy gyfraith lle mae baban neu ffetws sy'n cael ei eni yn dangos arwyddion bywyd ac yna'n marw, fod yn rhaid i'w enedigaeth gael ei gofrestru ac mae'n rhaid ei gladdu neu'i amlosgi.

36. Tra bod y ddyletswydd gyfreithiol i wneud trefniadau angladd yn dilyn genedigaeth marw neu farwolaeth newydd-anedig gyda'r rhieni, gyda'u caniatâd, gall sefydliadau ei wneud ar eu rhan. Mewn perthynas â genedigaethau marw, y mae wedi cael ei gydnabod fel ymarfer da ers amser hir i ysbytai gynnig trefnu a thalu tuag at gladdedigaeth neu amlosgiad. Pe byddai rhieni yn hoffi hyn, dylid rhoi'r cyfle iddyn nhw fynychu'r seremoni.

37. Mae canllawiau pellach ar anghenion cofrestru a gwaredu genedigaethau marw a marwolaethau newydd-anedig ar gael yng nghanllawiau Sands [<http://www.uk-sands.org/>].

Atodiad 1

Ymgynghorwyd â'r sefydliadau canlynol wrth ddatblygu'r canllawiau hyn:

Coleg Nyrsio Brenhinol

Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr

Coleg Brenhinol y Bydwagedd

Gwasanaeth Cynghori Beichiogrwydd Prydain

Elusen Marw-enedigaeth a Marwolaeth Babanod Newydd-anedig (Sands)

Y Gymdeithas Camesgor

Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM)

Ffederasiwn Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA)

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Yr Adran Iechyd

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Mae cyfres o gwestiynau a ofynnir yn aml, sy'n darparu gwybodaeth fwy ymarferol ar weithredu'r canllawiau hyn, ar gael ar wefan AMD: <https://www.hta.gov.uk/faqs/disposal-of-pregnancy-remains-faqs>

Atodiad C

Rhestr lawn o argymhellion adroddiad Emstrey

1. Rydw i'n argymhell bod y Llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau cod ymarfer sengl ac awdurdodol ar gyfer amlosgiadau babanod a phlant bach.
2. Felly rydw i'n argymhell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymarfer ei bwerau o dan y Rheoliadau Amlosgi i benodi arolygwr annibynnol gyda phwerau cymharol i'r rhai a amlinellwyd yn argymhelliad 63 o adroddiad Bonomy.
3. Yn ogystal, rydw i'n argymhell y bydd cyfrifoldebau'r arolygwr yn cynnwys hyrwyddo cod ymarfer cenedlaethol sengl mewn perthynas â thechnoleg a thechnegau amlosgi ar gyfer amlosgiadau plant bach fel ei fod yn mwyhau'r siawns o gadw'r llwch a ellir ei ddychwelyd at ymgeisydd yr amlosgiad.
4. Rydw i'n argymhell bod y Rheoliadau Amlosgi yn cael eu diwygio yn Lloegr, fel ag yn yr Alban, er mwyn gweithredu diffiniad Comisiwn Bonomy o lwch.
5. Rydw i'n argymhell bod safonau sylfaenol o hyfforddiant proffesiynol, ac ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus, yn cael eu cyflwyno ar gyfer staff arolygu a gweithredu'r amlosgfa.
6. Rydw i'n argymhell felly bod swyddog unigol, yn adrodd yn y cyswllt hwn i weinidog sengl, yn derbyn cyfrifoldeb am gydlynu dull y llywodraeth ar gyfraith ac ymarfer amlosgi ac am dynnu'r polisïau ynghyd i gyfanwaith cydlynol, yn cynnwys polisïau amgylcheddol, o wahanol adrannau o'r llywodraeth ar y pwnc.
7. Rydw i'n argymhell bod trefniadau yn cael eu gwneud yn y llywodraeth ar gyfer ystyried argymhellion Comisiwn Bonomy yn ehangach ar gyfer eu perthnasedd ar gyfer cyfraith ac ymarfer amlosgi plant bach.
8. Rydw i'n argymhell bod y Cyngor, yn gweithio gyda'u contractwyr, yn sicrhau bod trefniadau digonol a darpariaeth ariannol yn cael eu gwneud i sicrhau bod cyfarpar yr amlosgfa yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn gweithio yn y ffordd orau bosib, a'u bod yn cael eu hadnewyddu yn brydlon pan mae'n amser gwneud hynny.
9. Rydw i'n argymhell bod y Cyngor yn sicrhau ac yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cysylltu'n rheolaidd gyda Co-operative Funeralcare, trefnwyr angladdau, swyddogion angladdau, ac ysbytai fel eu bod yn cadw cysylltiad gyda materion

gwasanaethau ymarferol ac yn cyfrannu tuag at ansawdd uchel y gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu yn Amlogfa Emstrey.

10. Rydw i'n argymhell felly bod y Cyngor yn sicrhau bod y trefniadau rheoli ar gyfer ei wasanaethau profedigaeth yn cynnwys arbenigedd a chymwyseddau sy'n gysylltiedig fel arfer â gofal cymdeithasol personol, yn ogystal ag arbenigedd sy'n gysylltiedig ag agweddau technegol o dechnoleg amlogwyr.
11. Rydw i'n argymhell bod Co-operative Funeralcare a Chyngor Swydd Amwythig yn sicrhau bod rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn bodoli ar gyfer staff rheoli a gweithredu yn amlogfa Emstrey.
12. Rydw i'n argymhell felly bod Co-operative Funeralcare a'r Cyngor yn ymgynghori yn awr ac yna'n cyhoeddi Datganiad ar Bolisi Llŵch diwygiedig ar y cyd ac wedi'i ysgrifennu'n syml, a'i wneud yn wybyddus i drefnwyr angladdau, gweinyddwyr ac ysbytai.

Atodiad D

Rhestr lawn o argymhellion Comisiwn Amlosgi Babanod yr Arglwydd Bonomy

1 Wrth ddeddfu, llunio polisiau, drafftio dogfennau gwybodaeth a chanllawiau, a gwneud trefniadau ar gyfer amlosgiadau babanod a'u cynnal, y baban a buddiannau'r teulu ddylai fod yn ganolbwynt y sylw. Dylid rhoi amser a lle i rieni a theuluoedd ddod i'r penderfyniad cywir ar eu cyfer nhw. Dylai bod trefniadau ym mhob ysbyty ar gyfer cysylltiad parhaus gyda rhieni, yn arbennig felly'r mamau, lle y mae'r cysylltiad hwnnw yn angenrheidiol.

2 Dylai'r FBCA yn ystod eu hymweliadau "cyfaill beirniadol" ag amlosgfeydd a'r ICCM yn eu holiadur hunanasesu ymdrin yn benodol â chynnal amlosgiadau babanod ac adfer y llwch.

3 Dylai'r "llwch", y mae'n rhaid i'r Awdurdod Amlosgi ei roi i'r unigolyn sydd wedi gofyn am yr amlosgiad os yw'n dymuno hynny, gael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth fel "y cwbl sydd ar ôl yn yr amlosgwr ar ddiwedd y broses amlosgi ac yn dilyn tynnu unrhyw fetel". Ni ddylai hynny atal yr ymgeisydd rhag cytuno ymlaen llaw i dynnu'r metelau, megis hoelion arch a chymalau artiffisial, a'u gwaredu ar wahân, yn cynnwys fel rhan o gynllun ailgylchu metelau.

4 Dylai Awdurdodau Amlosgi adolygu eu hymarferion yn syth i sicrhau eu bod, wrth ddelio â'r "llwch" yn dilyn amlosgi, yn mynd ymlaen ar y sail fod y "llwch" fel y diffinnir yn yr argymhelliad blaenorol.

5 Dylai Llywodraeth yr Alban roi gwybod i'w cymheiriaid yn Lloegr a Chymru a Gogledd Iwerddon ynglŷn â'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn yr Alban i'w galluogi i ystyried eguro'r diffiniad o "llwch" yn yr un termau.

6 Dylai pob Awdurdod Amlosgi lle nad yw llwch bob amser yn cael ei adfer mewn amlosgfeydd gysylltu gydag amlosgfa neu amlosgfeydd lle mae llwch yn cael ei adfer yn fwy rheolaidd er mwyn rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth ynglŷn â'u hymarferion unigol er mwyn nodi newidiadau mewn ymarfer a ddylid eu cyflwyno yn syth gyda golwg ar gynyddu'r gobaith o adfer y llwch.

7 Dylai'r Awdurdodau Amlosgi sydd wedi gwrthod defnyddio cynwysyddion ar gyfer amlosgi babanod ar sail iechyd a diogelwch ystyried ar frys, yng ngoleuni profiad eraill, cyflwyno protocol lleol i ganiatáu defnyddio cynwysyddion mewn ffordd na fydd unrhyw un mewn risg gormodol.

8 Fel mesur dros dro brys, dylai'r ICCM a Ffederasiwn Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) ffurfio gweithgor ar y cyd, a ddylai gynnwys yn ogystal dau unigolyn llewg wedi cael eu henwebu gan Lywodraeth yr Alban a chynrychiolydd o Facultatieve Industries Cyf, er mwyn ystyried yr amrywiol ymarferion a thechnegau sy'n cael eu defnyddio wrth amlosgi babanod a phlant bach ar hyn o bryd mewn amlosgwyr maint llawn, gyda golwg ar nodi'r ymarferion hynny sy'n hyrwyddo orau'r gobaith o adfer llwch, yn cynnwys gweddillion babanod a llunio canllawiau ar gyfer gweithredwyr yr amlosgwyr. Dylai'r

gweithgor nodi agweddau o'r broses amlosgi a ellid eu newid neu'u gwella o bosibl, a dylid comisiynu ymchwil iddo gan Lywodraeth yr Alban. Gall ymdrechion y gweithgor gael eu cynorthwyo gan y ffaith bod y mwyafrif o amlosgwyr sy'n cael eu defnyddio yn yr Alban yn cael eu cynhyrchu gan yr un gwneuthurwr, Facultatieve Technologies Ltd.

9 Yn dilyn cwblhau ei waith yn 8 uchod, dylai'r gweithgor hwnnw ystyried yn ogystal y systemau gweithredu a nodweddion eraill yr amlosgwyr sy'n cael eu defnyddio yn yr Alban a'r ymarferion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gyda golwg ar nodi'r agweddau hynny o'r broses amlosgi a ellid eu newid neu'u gwella o bosibl ac y dylid comisiynu ymchwil arno gan Lywodraeth yr Alban. Dylai hynny gynnwys yr ymarfer o amlosgi babanod ar ddiwedd y diwrnod gwaith a thros nos gyda'r amlosgwr yn gweithredu a chyfarpar monitro wedi'i droi i ffwrdd mewn ffordd na fydd yn achosi unrhyw niwed amgylcheddol o bwys ac yn boddhau SEPA y dylid ei ganiatáu, gyda golwg ar gynyddu'r gobaidh o adfer y llwch.

10 Dylai'r gweithgor hwnnw ystyried a chynghori a ddylai, yng ngoleuni'r profiad yn Lloegr ac yn yr Iwerddon, a rhoi sylw i'w heffeithlonrwydd wrth adfer llwch a chostau gosod a gweithredu, Llywodraeth yr Alban gomisiynu ymchwil ar ddylunio a datblygu amlosgwyr graddfa fechan.

11 Dylai pob Awdurdod Amlosgi gyhoeddi datganiad polisi, a ddylai gynnwys ymrwymiad i drin y baban mewn modd sensitif drwy'r amser a pharchu dymuniadau ac anghenion y rhieni a'r teuluoedd, ac esbonio polisi'r Awdurdod ar lwch. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb, dylai'r ICCM a'r FBCA ffurfio gweithgor ar y cyd er mwyn datblygu datganiad polisi enghreifftiol sy'n adlewyrchu ymarfer gorau a chaniatáu amrywiaeth leol fel bo'n briodol.

12 Dylai Trefnwyr Angladdau a staff gofal iechyd gynnwys darnau priodol o bolisi'r Awdurdod Amlosgi mewn deunydd gwybodaeth a chanllawiau sy'n cael ei roi i deuluoedd.

13 Dylai amlosgi babanod anhyfyw fod yn destun i reoleiddiad deddfwriaethol.

14 Dylid rhagnodi ffurflenni cais priodol ar gyfer pob un o'r tri chategori o amlosgi babanod a phlant bach: (a) baban marw-anedig; (b) amlosgi babanod anhyfyw ar y cyd; a (c) amlosgi baban anhyfyw yn unigol.

15 Ar bob ffurflen gais ar gyfer amlosgiad, dylai bod rhybudd eglur, mewn termau priodol i'r ffurflen honno, na ellid efallai adfer llwch, gyda darpariaeth gan yr ymgeisydd i gydnabod ei fod wedi darllen y rhybudd. Yn achos (b) amlosgiadau ar y cyd, dylai'r rhybudd ddatgan yn ogystal y bydd unrhyw lwch sy'n cael ei adfer un ai'n cael ei wasgaru neu'i gladdu, a nodi pa ddull, yn yr amlosgfa.

16 Yng nghyd-destun cyflwyno proses newydd ar ardystio marwolaeth, dylai Llywodraeth yr Alban adolygu cynnwys rhagnodedig ffurflen gais am amlosgiad, sef Ffurflen A ar hyn o bryd i sicrhau mai cwestiynau hanfodol yn unig sy'n cael eu hymgorffori i'r ffurflenni rhagnodedig newydd ar gyfer (a) ac (c).

17 Dylai pob ffurflen a ragnodwyd gael ei dylunio gan Lywodraeth yr Alban wrth ystyried symrlwydd ac eglurder, a dylai'r holl Awdurdodau Amlosgi, Byrddau Iechyd a darparwyr gofal iechyd eraill ddefnyddio'r cyfryw ffurflenni sydd wedi'u rhagnodi a'u dylunio.

18 Dylai'r ffurflenni a ragnodwyd ar gyfer (a) ac (c) gynnwys cwestiwn yn gofyn i'r ymgeisydd nodi sut y dylid ymdrin â'r llwch yn dilyn amlosgiad. Dylai'r dewisiadau gynnwys cadw am gyfnod diffiniedig wrth ddisgwyl penderfyniad terfynol ac yn ogystal yn ddiweddarach ymestyn y cyfnod cadw.

19 Dylai bod darpariaeth ar ffurflenni ar gyfer (a) ac (c), neu ar ffurflen ar wahân, i'r ymgeisydd awdurdodi cynrychiolydd, fel Trefnydd Angladdau, i gasglu'r llwch. Lle mae'r Trefnydd Angladdau yw'r unigolyn sydd wedi cael ei awdurdodi, dylai'r ffurflen yn ogystal ddarparu caniatâd yr ymgeisydd i'r Trefnydd Angladdau ddychwelyd y llwch i'r amlosgfa os nad yw'r ymgeisydd yn eu casglu gan y Trefnydd Angladdau na rhoi cyfarwyddiadau i'r Trefnydd Angladdau ynglŷn â'u gwaredu mewn cyfnod penodol o amser.

20 Dylai bod darpariaeth deddfwriaethol benodol na ddylid awdurdodi'r amlosgiad i fynd ymlaen os nad yw'r cais yn cynnwys cyfarwyddyd eglur ynglŷn â sut y dylid ymdrin â'r llwch.

21 Lle mae'r llwch yn cael ei adael yng ngofal yr amlosgfa ar y sail y bydd yn cael ei gasglu, neu er mwyn disgwyl cyfarwyddiadau pellach mewn cyfnod diffiniedig o amser, gall yr Awdurdod Amlosgi beidio â'i wasgaru na'i gladdu os nad oes rhybudd o 14 diwrnod o'u bwriad i wneud hynny wedi cael ei roi i'r ymgeisydd.

22 Dylai'r ffurflenni a ragnodwyd ar gyfer (a) ac (c) gael eu cwblhau a'u llofnodi gan yr ymgeisydd yn bersonol, a dylai llofnod yr ymgeisydd gael ei ardystio gan unigolyn nad ydyw'n aelod o deulu'r ymgeisydd ac nad oes ganddo unrhyw ran yn nhrefniadau'r amlosgiad.

23 Dylid darparu mewn deddfwriaeth fod y rhai hynny sydd â'r hawl i wneud cais am amlosgiad yn: (i) yn achos (a) ac (c) y perthynas agosaf fel y diffinir gan adran 50 o Ddeddf Meinwe Dynol (Yr Alban) 2006; a (ii) yn achos (b) unigolyn wedi'i awdurdodi gan Gyfarwyddwr Meddygol o Fwrdd Iechyd neu ddarparwr gofal iechyd arall, a bod cais a gyflwynwyd gan unigolyn gwahanol yn cael ei dderbyn yn unig ar yr achos a ddangosir, a ddylid ei gofnodi yn y gofrestr y cyfeirir ati isod.

24 Dylai staff hŷn yr Awdurdod Amlosgi fod yn gyfrifol am graffu ar yr holl ffurflenni cais amlosgi er mwyn boddhau eu hunain fod gan yr ymgeisydd hawl i wneud y cais fel mam, perthynas agosaf neu ar yr achos a ddangosir. Dylai fod darpariaeth deddfwriaethol, os nad yw'r Awdurdod Amlosgi yn cael eu bodloni o hawl yr ymgeisydd i ymgeisio, yna gall yr awdurdod i'r amlosgiad fynd ymlaen gael ei wrthod.

25 Dylid cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol tebyg i'r rhai yn Rheoliad 20 o Reoliadau (Lloegr a Chymru) 2008 yn gofyn am ardystiad priodol o enedigaeth farw.

26 Dylid ymestyn dyletswydd Awdurdodau Amlosgi ynglŷn â thrin llwch a amlinellir yn Rheoliad 17 o Reoliadau 1935 i gynnwys babanod marw-anedig neu anhyfyw.

27 Dylid diwygio darpariaethau Rheoliadau 13 a 15A o Reoliadau 1935 i gynnwys plant marw-anedig.

28 Dylai GIG yr Alban adolygu'r ddarpariaeth o gyfleuster amlosgiad wedi'i drefnu gan ysbytai drwy'r Alban gyda golwg ar wneud darpariaeth gyson yn yr holl Fyrddau lechyd.

29 Dylai Llywodraeth yr Alban sefydlu gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Byrddau lechyd, Trefnwyr Angladdau, Awdurdodau Amlosgi a sefydliadau sy'n cefnogi cam-esgor a phrofedigaeth gyda phlant er mwyn ystyried ymarferion sy'n esblygu wrth drefnu a chynnal amlosgiadau ar y cyd a llunio cod ymarfer o osod safonau sylfaenol ar gyfer amlosgiadau ar y cyd. (9.35)

30 Dylid adolygu Canllawiau 2012 gan y PSM a'r PSN ar waredu sensitif a dylid ystyried eu diwygio er mwyn i'r sylwadau a wnaed yn Adran 9 gael eu hystyried.

31 Dylid adolygu Atodiad C i Ganllawiau'r PSM a'r PSN i: (i) amlinellu'r dewisiadau ar gyfer gwaredu yn benodol i'r fam uwchben y llofnod; (ii) datgan efallai na ellir adfer llwch yn dilyn amlosgiad, a bydd yr hyn a gaiff ei adfer yn cael ei wasgaru neu'i gladdu yn yr amlogfa; a (iii) nodi'n benodol mai amlosgi ar y cyd gydag eraill yw'r weithdrefn safonol i'w dilyn lle mae'r fam yn gwrthod trafod gwaredu.

32 Dylai'r ffurflen gais ar gyfer (b) ddatgan fod pob mam wedi awdurdodi'r ysbyty i drefnu amlosgiad ar y cyd, a bod awdurdodiad o'r fath ar gael yng nghofnodion yr ysbyty.

33 Dylai pob cais am amlosgi baban anhyfyw gynnwys tystysgrif feddygol bod y colli beichiogrwydd wedi digwydd cyn 24 wythnos ac nid oedd yn dangos unrhyw arwyddion bywyd.

34 Dylai Awdurdodau Amlosgi, Trefnwyr Angladdau a Byrddau lechyd adolygu'r trefniadau cytundebol sy'n bodoli ar gyfer amlosgiadau ar y cyd yng ngoleuni Canllawiau ICCM yn Adran 6 er mwyn bodloni eu hunain fod cyfrifoldebau'r partïon priodol wedi'u diffinio fel eu bod yn sicrhau bod amlosgiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd urddasol a sensitif.

35 Dylai bod gofyn i bob Awdurdod Amlosgi, drwy ddeddfwriaeth, gofnodi amlosgiad pob baban marw, baban marw-anedig a baban anhyfyw a wnaed gan yr Awdurdod Amlosgi mewn cofrestr neu gofrestrau yn cynnwys colofnau rhagnodedig, a dylid cwblhau pob un, yn cynnwys yn benodol, a oedd y llwch wedi cael ei wasgaru neu'i gladdu, y dyddiad a'r lleoliad, ac os cafodd ei gasglu, gan nodi'r dyddiad a chan bwy.

36 Dylai'r Gofrestr Amlosgi fod yn ddogfen gyhoeddus a dylai Llywodraeth yr Alban wneud darpariaeth ddeddfwriaethol i'r perwyl hwnnw, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau sydd eu hangen er lles preifatrwydd ac er mwyn cydymffurfio ag anghenion gwarchod data.

37 Dylai pob Bwrdd Iechyd a darparwyr gofal iechyd eraill gadw cofrestr o awdurdodiadau fel bod yr amlogfa lle amlogwyd y baban yn cael ei chofnodi mewn ffordd a fydd yn sicrhau olrheiniadwyedd y cyswllt rhwng y baban a'r llwch.

38 Gan fod cadw dogfennau pwysig mewn perthynas ag amlosgiadau a drefnwyd gan yr ysbyty yn gyfrifoldeb yr ysbyty neu ddarparwyr gofal iechyd arall, dylid penodi gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd a chynrychiolydd o'r sector gofal iechyd preifat, wedi'i gadeirio gan swyddog o Lywodraeth yr Alban i adolygu'r ymarfer o gadw cofnodion ymhob ysbyty a darparwyr gofal iechyd eraill mewn perthynas â dogfennau sy'n berthnasol i amlosgiadau babanod a phlant bach gyda golwg ar nodi'r ymarfer gorau i'w ddefnyddio drwy'r Alban.

39 Dylid cadw'r cofrestrau gan yr Awdurdodau Amlosgi, y Byrddau Iechyd a'r darparwyr gofal iechyd eraill am gyfnod amhenodol. Dylid cadw'r holl ffurflenni cais, tystysgrifau a dogfennau swyddogol eraill sy'n gysylltiedig ag amlosgiad am o leiaf 50 mlynedd.

40 Dylai Llywodraeth yr Alban ffurfio gweithgor yn cynnwys Awdurdodau Amlosgi a darparwyr meddalwedd i amlogfeydd adolygu'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer prosesu a storio dogfennau a chofnodion amlosgi yn electronig, er mwyn ystyried ac argymhell gwelliannau priodol i gyflawni nod argymhellion y Comisiwn hwn, ac ystyried pa nodweddion a chyfleusterau ychwanegol a ddylai cynhyrchwyr y feddalwedd gael eu gwahodd i ddatblygu, y cyfan gyda golwg ar sicrhau bod y systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr Awdurdodau Amlosgi mor effeithlon a diogel ag sy'n bosibl. Dylai'r gweithgor hefyd ystyried a chynghori ar yr anghenion priodol ar gyfer systemau wrth gefn. O ystyried pwysigrwydd cadw cofnodion yn ddiogel, dylai'r gweithgor yn ogystal ystyried a chynghori a yw mesurau diogelwch ychwanegol yn angenrheidiol a pha systemau storio wrth gefn a ddylid eu darparu.

41 Yn achos babanod marw a marw-anedig, wedi cwblhau'r cofnod drwy gofnodi lleoliad y llwch neu'r casglu a dyddiad hynny, dylid fod angen i Gofrestrydd yr Awdurdod Amlosgi anfon hysbysiad at yr ymgeisydd yn cadarnhau beth ddigwyddodd ac, os yw wedi cael ei wasgaru neu'i gladdu, lle oedd hynny, ynghyd â detholiad o'r cofnod cofrestru llawn. Yn achos amlosgi unigol baban anhyfyw, dylai'r Cofrestrydd gyhoeddi hysbysiad o'r fath a detholiad os gofynnir amdano a dylai'r ffurflen gais ddarparu ar gyfer gwneud cais o'r fath.

42 Dylai'r ICCM a FBCA adolygu eu rhaglenni hyfforddi technegol priodol yn unol â'r anghenion a nodwyd yn Adran 11.

43 Dylai FBCA adolygu'r holl ddogfennau canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi er mwyn darparu canllawiau deallus, eglur a llawn ar y gobaiith o adfer y llwch yn seiliedig ar wybodaeth o aeddfedrwydd ysgerbydol yn hytrach nag oed cyfnod cario yn unig.

44 Dylai'r ICCM a FBCA gyflwyno i'w rhaglenni hyfforddi technegol eu hunain ddarpariaeth sy'n gofyn i'r technegydd dan hyfforddiant a'i fentor ei mynychu a'i dilyn, yn ystod y cyfnod hyfforddi ac mewn amlogfa a nodir gan y Sefydliad neu'r Ffederasiwn sy'n rhagori mewn cynnal amlosgiadau babanod a phlant bach, diwrnod llawn o hyfforddiant i

gynnal amlosgiad babanod a phlant bach ar ddau achlysur ar wahân. Dylai fod angen i'r hyfforddai fodloni'r arholwr o'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r dulliau a'r technegau wrth gynnal amlosgiadau babanod a phlant bach sy'n gwella'r gobaith o adfer y llwch.

45 Dylai'r ICCM ddiwygio eu cynllun hyfforddi rheolwyr er mwyn cynnwys elfen sy'n ymdrin ag amlosgi babanod a phlant bach a'i wneud yn rhan orfodol o astudio ar gyfer tystysgrif mewn rheolaeth amlosgiadau.

46 Dylai'r unigolyn gyda chyfrifoldeb rheoli uniongyrchol dros weithredu amlosgfa feddu naill ai ar gymhwyster mewn rheoli amlogsfeydd neu dystysgrif cymhwyster FBCA i weithredu amlogswyr neu dystysgrif ganolraddol yr ICCM ar gyfer gweithrediadau technegol mewn amlogsfeydd.

47 Dylai'r FBCA ddatblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

48 Dylid hysbysu mamau babanod anhyfyw a theuluoedd babanod marw-anedig a babanod sydd wedi marw'n ifanc iawn sy'n ystyried amlosgiad lle mae posibilrwydd na fydd llwch yn cael ei adfer a dylid eu hatgoffa ynglŷn â'r dewis o gladdedigaeth.

49 Dylai holl ddarparwyr rhaglenni hyfforddi ar gyfer Trefnwyr Angladdau eu hadolygu yng ngoleuni unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar amlosgi babanod anhyfyw a marw-anedig a gweithdrefnau gweinyddol cysylltiedig.

50 Dylai holl ddarparwyr rhaglenni hyfforddi ar gyfer Trefnwyr Angladdau ddyfeisio modiwlau sydd wedi cael eu dylunio i roi dealltwriaeth o'r broses amlosgi i Drefnwyr Angladdau, yr effaith y mae'n ei gael a'r gobaith o adfer llwch mewn amlosgiadau babanod a phlant bach.

51 Dylai pob Bwrdd lechyd, fel rhan o wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus, nodi staff a fydd yn derbyn y cyfrifoldeb am gyfathrebu gyda theuluoedd ynglŷn â threfniadau ar gyfer gwaredu a chysylltu gyda Threfnwyr Angladdau ac amlogsfeydd a threfnu, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, eu haddysg a'u hyfforddiant pellach yn y sgiliau angenrheidiol, yn cynnwys datblygu eu sgiliau cyfathrebu, gwella eu dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau cydweithwyr, a darparu gwerthfawrogiad o gyfarpar amlosgi modern ac ymarfer amlosgi cyfoes ac effaith amlosgi ar fabanod a phlant bach.

52 Dylai Byrddau lechyd gefnogi staff wrth ddechrau ffurfio gweithgorau amlddisgyblaethol lleol yn cynnwys pawb â swyddogaeth o ymdrin â thynged baban o'r ysbyty i'r amlogfa i gyfnewid gwybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a phrofiad, yn ogystal â hyrwyddo rhaglenni hyfforddi ar y cyd, gyda'r nod o sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gyfarwydd â'r cyfleusterau sydd ar gael a'r ymarferion sy'n cael eu dilyn yn lleol.

53 Dylai Byrddau lechyd, sefydliadau sy'n darparu cyngor, cefnogaeth a chanllawiau i deuluoedd galarus fel SANDS UK a'r Gymdeithas Camesgor, Trefnwyr Angladdau, ICCM a FBCA, ac unrhyw gorff arall sy'n darparu cyngor, cefnogaeth a chanllawiau i rieni a theuluoedd galarus, adolygu'r holl gyhoeddiadau sy'n ymwneud ag amlosgi sy'n debygol o

gael eu dosbarthu i'r cyhoedd, neu sydd yn cael eu gweld gan y cyhoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth fanwl gywir sy'n cael ei ddatgan yn eglur ac yn gyson, yn cynnwys yn benodol gwybodaeth am y gobeithion o adfer llwch, a'u bod yn cynnwys nodyn atgoffa bod claddedigaeth yn ddewis sydd ar gael.

54 Dylai Llywodraeth yr Alban sefydlu gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r Byrddau Iechyd sy'n cael ei gadeirio gan swyddog Llywodraeth yr Alban er mwyn adolygu'r holl ddogfennau canllawiau a thafenni gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio gan yr holl Fyrddau Iechyd a darparwyr gofal iechyd preifat, yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi'u llunio gan, neu ar y cyd gyda, cyrff fel SANDS a'r Gymdeithas Camesgor, mewn perthynas â cholli beichiogrwydd a phrofedigaeth plentyn bach a threfnu gwaredu, gyda golwg ar sicrhau cysondeb yn y Canllawiau a'r wybodaeth hynny, a cheisio lleihau'r doreth o ddogfennau gwahanol sy'n cael eu defnyddio.

55 Lle maen nhw'n cael gwahoddiad i wneud hynny gan rieni sydd wedi cael eu heffeithio, dylai cynghorau / awdurdodau lleol hwyluso trafodaeth ar gynlluniau ar gyfer cofebau lleol.

56 Dylai Llywodraeth yr Alban ffurfio gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o rieni sydd wedi cael eu heffeithio a grwpiau cefnogi profedigaethau er mwyn ystyried a ddylai fod cofeb genedlaethol wedi'i hymgysegru i'r babanod yr oedd eu llwch wedi cael ei gam-drin ac, os felly, sut fath o gofeb ddylai fod.

57 Dylai Llywodraeth yr Alban sefydlu Pwyllgor Cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros amlosgiadau babanod a phlant bach.

58 Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol gael ei gadeirio gan uwch swyddog o Lywodraeth yr Alban. Byddai aelodaeth y Pwyllgor yn dod o awdurdodau, sefydliadau, proffesiynau a chyrff eraill gyda swyddogaeth mewn amlosgi babanod a phant bach, a dylai gynnwys cynrychiolaeth o grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli rhieni sydd wedi cael eu heffeithio a dylai ddarparu cefnogaeth ar brofedigaeth.

59 Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol gael y grym i sefydlu gweithgorau o'i aelodaeth, gydag aelodau cyfetholedig lle bo'n briodol, er mwyn ystyried argymhellion penodol o'r adroddiad hwn. Byddai bob un o'r gweithgorau a argymhellwyd uchod yn is-grwpiau o'r Pwyllgor Cenedlaethol. Byddai'n agored i'r Pwyllgor Cenedlaethol i neilltuo i un gweithgor y tasgau a neilltuwyd yn fwy nag un argymhelliad, er enghraifft, gellid ymdrin ag argymhellion mewn perthynas â materion technegol a thechnoleg amlogsfeydd gan is-grŵp proffesiynol sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn. Yn ogystal, dylai fod gan y Pwyllgor Cenedlaethol y grym i sefydlu gweithgorau er mwyn ystyried materion eraill a nodwyd gan y Pwyllgor Cenedlaethol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cenedlaethol.

60 Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol adrodd i Weinidogion yr Alban ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan y Comisiwn hwn yn flynyddol. Dylid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwnnw ar wefan Llywodraeth yr Alban.

61 Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol, fel blaenoriaeth, ddatblygu Cod Ymarfer cenedlaethol ar gyfer amlosgi babanod a phlant bach. Dylai Cod o'r fath, a ddylai gael ei lywio gan

argymhellion y Comisiwn hwn, amlinellu'r anghenion sylfaenol i sefydliadau gadw atyn nhw wrth gefnogi rhieni a theuluoedd galarus drwy'r broses amlosgi babanod a phlant bach, a cheisio nodi'r ymarfer gorau i'w ddilyn gan yr holl gyrff sy'n ynghlwm ag amlosgi babanod a phlant bach. Dylai'r Cod Ymarfer gynnwys egwyddorion a chanllawiau cyffredinol, yn ogystal â chanllawiau technegol a gweithredol penodol ar gyfer Awdurdodau Amlosgi, Byrddau Iechyd a Threfnwyr Angladdau, gyda golwg ar gyrraedd safonau uchel o ymarfer yn gyson ymysg pawb â swyddogaeth mewn amlosgi babanod a phlant bach.

62 Dylai'r Cod Ymarfer fod yn ddogfen fyw sydd nid yn unig yn ymateb i ddatblygiadau, ond yn ogystal yn gyfrwng i hyrwyddo gwelliannau, mewn ymarfer, technoleg, polisi a deddfwriaeth. Dylai'r Pwyllgor Cenedlaethol felly barhau i fonitro datblygiadau ym mhob agwedd o weithgarwch mewn perthynas ag amlosgi babanod a phlant bach ac adolygu'r Cod yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu safonau cyfoes ac ymarfer gorau.

63 Dylai Gweinidogion yr Alban benodi Arolygydd annibynnol i fonitro arferion a safonau gweithio mewn amlosgfeydd, darparu adborth i Awdurdodau Amlosgi ar sut y maen nhw'n perfformio ac adrodd i Weinidogion yr Alban fel bo'r angen. Dylai'r Arolygydd annibynnol gael yr awdurdod i ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd ynghlwm ag ymarferion a safonau gweithio mewn amlosgfeydd, dyfarnu ar y cwynion hyn ac adrodd y canfyddiadau i Weinidogion yr Alban. Dylai swyddogaeth yr Arolygydd gael ei hymestyn i'r diwydiant angladdau ac nid oes unrhyw ddarpariaeth ar arolygu hyn ar hyn o bryd.

64 Dylai Gweinidogion yr Alban gadw'r diwydiannau amlosgi ac angladdau o dan adolygiad a dylen nhw ystyried, yng ngoleuni adroddiadau'r Pwyllgor Cenedlaethol a'r Arolygydd annibynnol, a oes angen rheoleiddio pellach o unrhyw un.

Eich manylion chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi eich manylion

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yn berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cof post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y nodyn cydnabod, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhwng enw'r grŵp a chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 9 Mawrth 2016 i:

Coroners, Burials, Cremations and Inquiries Policy Team

Area 3.37

Ministry of Justice

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3555

Ffacs: 020 3334 2233

E-bost: coroners@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn i'w cael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol gan coroners@justice.gsi.gov.uk / 020 3334 3555.

Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymarferion i'r ymgynghoriad hwn ymhen yn ystod gwanwyn 2016 mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl i wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfun drefnau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y ceir Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro wrthym pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymedigol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio polisiau a deddfwriaeth wedi'u datgan yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agoredv3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3 neu ysgrifennu at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk <<mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk>>.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint honno.

Mae'r adroddiad hwn i'w gael mewn fformatau gwahanol ar gais gan coroners@justice.gsi.gov.uk / 020 3334 3555.